# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 1 ac 8 Ebrill 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

14 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog restru'r pwerau Harri VIII y mae'n eu dal o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998? (WAQ34084)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid wyf yn dal unrhyw bwerau o'r fath. Pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth yw pŵer Harri'r VIII. Nid oes gennyf fi awdurdod ar fy mhen fy hun i gymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth: o dan amgylchiadau arferol, mae hon yn swyddogaeth i'r Cynulliad cyfan.

Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad lawer iawn o bwerau—dros 200 mwy na thebyg—i addasu deddfwriaeth sylfaenol yn y ffordd hon. Mae nifer o'r rhain wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru, er enghraifft y rhai yn adrannau 27(9) a 28(7), sy'n ymwneud â diwygio'r GIG a chyrff cyhoeddus eraill. Trosglwyddwyd y gweddill inni drwy Orchymyn neu cawsant eu rhoi drwy Ddeddfau seneddol diweddarach. Dim ond am gost afresymol y gellid darparu manylion am bob un o'r rhain.

### Ceiswyr Lloches

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch adroddiad diweddar y Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches sy'n dod i Brydain heb eu harchwilio? (WAQ34106)

**Y Prif Weinidog:** Nac ydwyf.

### Colledion Swyddi Arfaethedig yn y Gwasanaeth Sifil

**Nick Bourne:** Ymhellach at ddatganiad cyllidebol Canghellor y Trysorlys ynghylch colledion swyddi arfaethedig yn y gwasanaeth sifil, a wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar swyddi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ34114)

**Y Prif Weinidog:** Ni phennwyd targed penodol gan Ganghellor y Trysorlys ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff gofynion staffio'r Cynulliad i'r dyfodol eu hystyried fel rhan o ystyriaethau'r gyllideb. Bydd yr is-adrannau cymorth canolog yn parhau i edrych ar ffyrdd o gynyddu effeithlonrwydd er mwyn rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

### Pwerau Codi Trethi

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch effaith cyflwyno pwerau codi trethi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, os felly, a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau hynny? (WAQ34130)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau o'r fath. Bydd comisiwn Richard yn cyhoeddi'r dystiolaeth a dderbyniodd maes o law.

### Pwerau Deddfu Sylfaenol

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch effaith cyflwyno pwerau deddfu sylfaenol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, os felly, a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau hynny? (WAQ34131)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau o'r fath. Bydd comisiwn Richard yn cyhoeddi'r dystiolaeth a dderbyniodd maes o law.

## Comisiwn Richard

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu trafod effaith cynigion comisiwn Richard gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? (WAQ34132)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu cyhoeddi manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch effaith argymhellion comisiwn Richard yng Nghymru? (WAQ34133)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion San Steffan ynghylch y posibilrwydd y bydd nifer yr ASau yng Nghymru yn cael ei leihau, gan ddibynnu ar gyflwyno pwerau deddfu a/neu godi trethi yng Nghymru, ac, os felly, a wnaiff gyhoeddi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ34134)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr sefydliadau datganoledig eraill yn y DU ynghylch argymhellion comisiwn Richard, ac, os felly, a wnaiff ymrwymo i gyhoeddi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ34136)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu trafod cynigion comisiwn Richard gyda Phrif Weinidog Prydain, ac, os felly, a wnaiff ymrwymo i roi manylion y trafodaethau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ34137)

**Nick Bourne:** Pryd y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu trafod cynigion comisiwn Richard gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac a wnaiff roi adborth unwaith y bydd y trafodaethau hynny wedi'u cynnal? (WAQ34138)

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gynnal refferendwm yng Nghymru yn gysylltiedig â chynigion comisiwn Richard ar gyfer pwerau deddfu a/neu godi trethi, ac, os felly, a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ34139)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth fer hyd yma gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y cyfnod byr ers i adroddiad comisiwn Richard gael ei gyhoeddi. Byddaf yn trafod yr adroddiad gydag amrywiaeth eang o garfannau â diddordeb yn y mater maes o law. Bydd hynny yn gymorth wrth inni ystyried yr adroddiad a'i oblygiadau ymhellach, yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Ebrill ac wedi hynny. Mae'n bosibl y bydd manylion fy nhrafodaethau i, a thrafodaethau fy nghyd-Weinidogion, gyda Gweinidogion y DU a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrinachol mewn llawer o achosion o dan delerau Cod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

## Refferendwm ar Bwerau Deddfu a/neu Godi Trethi

**Nicholas Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog nodi cost unrhyw refferendwm posibl ar bwerau deddfu a/neu godi trethi ar gyfer y Cynulliad? (WAQ34140)

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd cost refferendwm 1997 oddeutu £3 miliwn yn ôl prisiau 1997. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw fwriad o roi amcangyfrif o gost refferendwm ddamcaniaethol i'w chynnal ar ddyddiad anhysbys.

## Adroddiad Comisiwn Richard

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad yn ddiymdroi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unwaith y bydd wedi cael trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion San Steffan ynghylch adroddiad comisiwn Richard? (WAQ34141)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth fer hyd yma gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y cyfnod byr ers i gomisiwn Richard gael ei gyhoeddi. Byddaf yn trafod yr adroddiad gydag ystod eang o garfannau â diddordeb maes o law. Bydd hynny yn gymorth wrth inni ystyried yr adroddiad a'i oblygiadau ymhellach, yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Ebrill ac wedi hynny. Mae'n bosibl y bydd manylion fy nhrafodaethau i, a thrafodaethau fy nghyd-Weinidogion, gyda Gweinidogion y DU a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrinachol mewn llawer o achosion o dan delerau Cod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

### Nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaeth gydag ASau'r Blaid Lafur yn San Steffan ynghylch y posibilrwydd y bydd nifer yr ASau yng Nghymru yn cael ei leihau, ac, os ydyw wedi cael y fath drafodaethau, a wnaiff gyhoeddi eu manylion? (WAQ34153)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn atebol i'r Cynulliad am drafodaethau a gaf yn rhinwedd fy swydd fel arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru.

### Papur Gwyn 1997, 'Llais Dros Gymru'

**Leighton Andrews:** A wnaiff restru cyfrifoldebau a phwerau'r Cynulliad na chawsant eu hamlinellu ym Mhapur Gwyn 1997, 'Llais dros Gymru'? (WAQ34176)

**Y Prif Weinidog:** Nid oedd y Papur Gwyn yn nodi pwerau cychwynnol y Cynulliad mewn unrhyw fanylder; cafodd hynny ei adael tan y Gorchymyn trosglwyddo cyntaf ym mis Mawrth 1999.

Er 1999, yr ydym wedi derbyn cyfrifoldeb am gronfa gymdeithasol Ewrop a byddwn yn derbyn cyfrifoldeb am iechyd anifeiliaid, y gwasanaeth tân, y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd a chymorth i fyfyrwyr cyn bo hir. Mae hyn yn ychwanegol at y pwerau newydd a roddwyd inni'n uniongyrchol mewn dwsinau o Ddeddfau seneddol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Rasio Colomennod

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gydnabyddiaeth mae rasio colomennod yn ei chael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o'i chymharu â'r gydnabyddiaeth y mae'n ei chael yn Lloegr? (WAQ34050)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Byddaf yn cwrdd â'r Welsh North Road Federation yn fuan i drafod hyn. Fodd bynnag, nid yw rasio colomennod yn cael ei gydnabod yn swyddogol fel camp yn unrhyw un o wledydd y DU, gan gynnwys Cymru, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i'w gofrestru'n gamp.

### Gŵyl Jazz Aberhonddu

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig unrhyw gymorth i Ŵyl Jazz Aberhonddu, ac, os ydyw, a ellir rhoi'r manylion? (WAQ34055)

**Alun Pugh:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn darparu grant o £90,000 yn 2004-05 i Ŵyl Jazz Aberhonddu. Dyma'r ail flwyddyn mewn rhaglen a fydd yn rhoi £270,000, o gyllid tuag at yr ŵyl dros dair blynedd.

### Theatr y Sherman

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i Theatr y Sherman? (WAQ34057)

**Alun Pugh:** Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cymorth grant o £491,213 i Theatr y Sherman yn 2004-05.

### Cyfleusterau Olympaidd

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno sylwadau i'w gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd y loteri ar gyfer cyfleusterau os cynhelir y gemau Olympaidd yn Llundain ac (a) os ydyw, a wnaiff fanylu ar y sylwadau hynny, a (b) os nad yw, a yw'n bwriadu cyflwyno sylwadau ac ar ba ffurf y bydd y sylwadau hynny'n cael eu cyflwyno? (WAQ34064)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth gyda Gweinidogion yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â nifer o faterion yn ymwneud â'r loteri genedlaethol, gan gynnwys y cynnig y gallai arian loteri gyfrannu tuag at gostau cynnal gemau Olympaidd 2012.

### Y Dreth ar Werthu Tocynnau Loteri

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth San Steffan ynghylch cael gwared ar y dreth ar werthu tocynnau loteri, ac, os nad ydyw, a wnaiff gyflwyno sylwadau o'r fath? (WAQ34065)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau penodol am y mater hwn, ac nid wyf ychwaith wedi derbyn unrhyw sylwadau. Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr yn San Steffan ynglŷn ag ystod eang o faterion yn ymwneud â'r loteri genedlaethol a'r ffordd y mae'n gweithredu yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Marchnata Cynnyrch o Gymru

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa grantiau sydd ar gael i farchnata cynnyrch o Gymru, gan gynnwys natur y grantiau a'r symiau sydd ar gael ar gyfer 2003-04 a 2004-05? (WAQ33245)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 24 Mawrth 2004.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cyfanswm o £350,000 y flwyddyn yw'r gyllideb ar gyfer y cynllun datblygu marchnata yn 2003-04 a 2004-05. Er mai cynllun grantiau cyfalaf yw yn bennaf, mae'r grant prosesu a marchnata hefyd yn gallu cynorthwyo elfen fach o farchnata cyhyd â bod y gwaith hwn yn rhan annatod o brosiect cyfalaf. Mae'r cyllidebau ar gyfer 2003-04 a 2004-05 fel a ganlyn:

Grant Prosesu a Marchnata Amcan 1

| 2003-04 | 2004-05 |
|---|---|
| £3.456 miliwn (Llywodraeth Cynulliad Cymru) | £3.456 miliwn (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| £3.456 miliwn (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) | £3.456 miliwn (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) |

Grant Prosesu a Marchnata ar wahân i Amcan 1

| | |
|---|---|
| £2.048 miliwn | £1.8 miliwn |

### Grantiau Marchnata

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd yn lleihau'r grantiau marchnata sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol neu yn y flwyddyn ariannol nesaf i hyrwyddo cynnyrch o Gymru? (WAQ33246) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 24 Mawrth 2004.*

**Carwyn Jones:** Ni fydd toriadau yn y grantiau marchnata yn y flwyddyn ariannol hon na'r un nesaf.

### Buddiant Awdurdod Datblygu Cymru mewn Eiddo, Safleoedd neu Dir a Restrir

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ32598, beth yw amcangyfrif gwerth y farchnad mewn perthynas â buddiant y WDA mewn eiddo, safleoedd neu dir a restrir? (WAQ33903)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Daw  gwerth llawn yr asedau sydd wedi'u rhestru yn adroddiad ariannol a chyfrifon yr awdurdod am 2002-03 i gyfanswm o £219,587,000.

### Y Cynllun Pecyn Cymunedol

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido cynllun pecyn cymunedol y WDA yn y dyfodol? (WAQ33923)

**Andrew Davies:** Mae cynllun pecyn cymunedol Awdurdod Datblygu Cymru yn rhoi cymorth refeniw a chyfalaf, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill, i helpu i feithrin gallu fel bod cymunedau yn gallu rhoi cynlluniau gweithredu ar waith er mwyn adfywio'r cymunedau hynny. Darperir cyllid ar gyfer y cynllun o gymorth grant craidd ac arian Ewropeaidd, o dan Amcanion 1, 2 a 3.

### Prosiect y Ddraig Goch

**Carl Sargeant:** Pa gymorth a roddwyd gan y Cynulliad, os rhoddwyd cymorth o gwbl, i brosiect y Ddraig Goch yn RAF Sealand, sir y Fflint? (WAQ34039)

**Andrew Davies:** Sefydlwyd prosiect y Ddraig Goch i edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud â chyfleusterau a seilwaith Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn, gan eu bod wedi hen ddyddio, ar ei safle yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Nid yw cyfleusterau'r asiantaeth yn RAF Sealand wedi'u cynnwys ym mhrosiect y Ddraig Goch.

### Y Fenter Coedwigaeth (Hyrwyddo Menter)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae'r Fenter Coedwigaeth yn hyrwyddo menter yng Nghymru? (WAQ34089)

**Andrew Davies:** Ers 1 Ebrill 2004, mae'r Fenter Goedwigaeth a'i swyddogaethau wedi cael eu hailintegreiddio yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru, ac nid yw mwyach yn bodoli fel corff ar wahân. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ymwneud â llawer o weithgareddau sy'n hyrwyddo mentergarwch yng Nghymru, o brosiectau twristiaeth a rheolaeth amgylcheddol i gynnal y diwydiant prosesu coed, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at economi llawer o ardaloedd gwledig. Fel y corff unigol mwyaf sy'n rheoli coetiroedd yng Nghymru, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli dros 40 y cant o goetiroedd y wlad, llawer o'r coedwigoedd mwyaf cynhyrchiol yn eu plith, ac mae'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod cyflenwad o goed ar gael i'r diwydiant prosesu coed bob amser.

Cafodd llawer o waith ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf i sefydlogi, cryfhau a datblygu'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir bod cynnyrch crynswth y diwydiant oddeutu £730 miliwn a'i fod yn cyflogi tua 11,000 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, sy'n cynrychioli tua 1 y cant o holl gynnyrch a chyflogaeth Cymru. Mae'r gweithgarwch hwn, fodd bynnag, yn cynnal cynnyrch a chyflogaeth pellach mewn sectorau eraill o'r economi drwy effeithiau lluosi. Drwyddi draw, yr oedd y sector prosesu coed yn cynnal cynnyrch crynswth amcangyfrifedig o £980 miliwn ac oddeutu 15,780 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Un enghraifft ddiweddar o fenter yn seiliedig ar bren sydd wedi cael ei sefydlu gan y Comisiwn Coedwigaeth drwy gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r cynllun busnes ynni o goed. Mae hwn yn brosiect £13 miliwn i sefydlu rhwydwaith o weithfeydd ynni mewn rhannau o'r Gymru wledig a fydd yn defnyddio pren fel tanwydd i ddarparu ffynhonnell ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio gan sefydliadau ar raddfa fach.

### Y Fenter Goedwigaeth (Hyrwyddo Twristiaeth)

**Nick Bourne:** A oes asesiad wedi'i gynnal o'r manteision sydd wedi dod i Gymru o ganlyniad i waith hyrwyddo twristiaeth Menter Coedwigaeth? (WAQ34090)

**Andrew Davies:** Er 1 Ebrill 2004, mae Menter Coedwigaeth wedi cael ei hail-integreiddio i'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ymgymryd â nifer o astudiaethau i edrych ar effaith economaidd coetiroedd ar dwristiaeth, yn ogystal â gwneud gwaith i amcangyfrif cyfanswm nifer yr ymweliadau â safleoedd y Comisiwn Coedwigaeth, ac argraffiadau ymwelwyr o'u hymweliadau â choetiroedd. Yn arbennig:

- Canfu 'Forests' Role in Tourism' fod gwariant gan dwristiaid ar ymweliadau diwrnod yn ymwneud â choedwigaeth oddeutu £51 miliwn y flwyddyn yng Nghymru, sef tua 2 y cant o'r holl wariant ar dwristiaeth.
- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn bartner yn arolwg ymweliadau diwrnod y DU, consortiwm sy'n nodi nifer yr ymweliadau diwrnod â lleoliadau, gan gynnwys coetiroedd, ynghyd â gwerth ymweliadau o'r math. Caiff canlyniadau arolwg ymweliadau diwrnod 2002 eu cyhoeddi ar 19 Mai 2004.
- Mae arolwg o holl goedwigoedd Cymru ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn cael amcangyfrif mwy cywir byth o nifer a math yr ymweliadau â choetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth ac effaith economaidd yr ymweliadau hyn. Bydd y canlyniadau ar gael cyn mis Mawrth 2005.

### Prosiect Wave Dragon

**Lisa Francis:** Faint o swyddi y bydd prosiect Wave Dragon yn eu creu? (WAQ34099)

**Andrew Davies:** Mae i Gymru botensial sylweddol o ran technolegau'r tonnau a'r llanw a thybir y bydd prosiect Wave Dragon yn creu oddeutu 15 swydd uniongyrchol yn ystod ei gyfnod arddangos. Mae'n debygol y bydd angen cryn lawer o gymorth arno o du'r diwydiant cynhyrchu ac adeiladu lle gallai rhagor o swyddi gael eu creu. Pe câi'r prosiect ei ddatblygu'n gwbl fasnachol, a chyda chymorth y WDA, mae'n bosibl y câi nifer sylweddol o swyddi uchel eu gwerth eu creu yn niwydiannau'r gadwyn gyflenwi megis cynhyrchu tyrbinau a gwasanaethau cysylltiol.

### Digwyddiadau yng Nghymru

**Lisa Francis:** Faint o arian bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario ar ymgynghorwyr a fydd yn cynhyrchu adroddiad ar ddatblygiad strategaeth i sicrhau bod Cymru yn cael y gorau o ddigwyddiadau yng Nghymru? (WAQ34101)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb ysgrifenedig i WAQ33006 a roddwyd gan Alun Pugh i Jenny Randerson ar 10 Mawrth.

### Tollau ar Bont Hafren

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog sylwadau i'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch y tollau ar bont Hafren? (WAQ34143)

**Andrew Davies:** Pennir lefelau'r tollau yn Neddf Pontydd Hafren 1992 ac fe'i haddasir yn unol â'r mynegai prisiau adwerthu a gyhoeddir ym mis Medi. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer i newid y darpariaethau hyn a rhaid iddo gadw at delerau'r cytundeb consesiwn a luniwyd rhwng Severn River Crossing Plc a'r Adran Drafnidiaeth.

Yr wyf fi a swyddogion y gyfarwyddiaeth drafnidiaeth yn cynnal cysylltiadau agos â'n cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth. Maent yn ymwybodol o'r pryderon yng Nghymru ynglŷn â'r darpariaethau codi tollau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cost Llosgi Adeiladau Ysgol yn Fwriadol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch adeiladau ysgol yn cael eu llosgi'n fwriadol yng Nghymru, a beth yw cost llosgi bwriadol i'r gyllideb addysg eleni, ac ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ34048)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae nifer yr achosion o losgi adeiladau ysgol yn fwriadol yn peri pryder mawr. Mae adeiladau ysgol yn cael eu hyswirio a'r cwmnïau yswiriant sy'n ysgwyddo'r costau ailadeiladu, ar wahân i unrhyw dâl dros ben a ysgwyddir gan yr awdurdod addysg lleol neu'r corff llywodraethu, neu'r gost o wella cyfleusterau fel rhan o'r ailadeiladu. Nid oes gwybodaeth am gost flynyddol llosgi bwriadol i gyllidebau addysg yn cael ei chadw'n ganolog.

### Brecwastau am Ddim mewn Ysgolion Cynradd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cost darparu brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd ledled Cymru ym mhob un o'r blynyddoedd o 2004-05 tan ddiwedd y Cynulliad hwn? (WAQ34063)

**Jane Davidson:** Dyrannwyd £1.5 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05, a bydd rhaglen beilot yn dechrau ym mis Medi. Mae contract gwerthuso allanol yn cael ei osod. Bydd hwn yn darparu tystiolaeth ynglŷn â'r niferoedd fydd yn manteisio ar y cynllun yn y dyfodol a'r costau, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.

Cyhoeddwyd £3.5 miliwn o arian ar gyfer 2005-06 ar 16 Mawrth yn y datganiad ar y gyllideb atodol. Mae costiadau manwl yn cael eu datblygu ar gyfer y rhaglen gyfan a bydd y rhain yn bwydo i mewn i'r adolygiad o wariant.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Cnydau a Addaswyd yn Enynnol

**Nick Bourne:** Pa gysylltiad a gafwyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ac â'r Llywodraeth yn San Steffan ynghylch cnydau a addaswyd yn enynnol, ac a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd? (WAQ34001)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae fy swyddogion a minnau yn cael trafodaethau rheolaidd ynghylch cnydau GM gyda chydweithwyr yn Whitehall a'r

gweinyddiaethau datganoledig. Ni fyddai'n briodol imi gyhoeddi manylion y trafodaethau hyn gyda chydweithwyr sy'n cael eu cynnal yn gyfrinachol.

**Incwm Ffermio**

**Nick Bourne:** Pa asesiad sydd wedi'i gynnal o incwm ffermio yng Nghymru er 1999, ac a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ffigurau sydd ar gael iddo? (WAQ34002)

**Carwyn Jones:** Dangosir gwybodaeth am incwm net o ffermio yng Nghymru o 1999 yn y tabl isod.

Tabl 1.1—Incwm net fesul fferm yn ôl math o fferm (£/fferm)

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 (a) | 2002-03 (a) | 2003-04 (f) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Termau enwol** | | | | | |
| Llaeth | 14,200 | 12,300 | 29,600 | 18,600 | 19,600 |
| Gwartheg a defaid (ardal lai ffafriol) | 3,100 | 3,700 | 1,700 | 12,500 | 16,700 |
| Gwartheg a defaid (tir isel) | 600 | 700 | 2,200 | 9,100 | 8,300 |
| Pob math | 5,700 | 5,600 | 9,100 | 13,600 | 16,400 |

Nodiadau: (a) heb gynnwys ffermydd lle lladdwyd anifeiliaid drwy orfodaeth yn ystod clwy'r traed a'r genau.

**Swyddi sy'n Dibynnu'n Uniongyrchol ar Amaethyddiaeth**

**Nick Bourne:** Faint o swyddi yng Nghymru sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar amaethyddiaeth, a faint a oedd yn ddibynnol ar amaethyddiaeth ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ34003)

**Carwyn Jones:** Mae'r wybodaeth sydd ar gael wedi'i nodi yn y tabl isod.

Llafur ar ffermydd yng Nghymru, 1999-2003

| | **1999** | **2000** | **2001** | **2002** | **2003** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif pennau** | | | | | |
| **Yr holl lafur ar ffermydd** | **59,500** | **55,700** | **56,400** | **56,300** | **55,600** |
| Prif ffermwyr amser llawn | 24,500 | 22,600 | 22,800 | 22,500 | 21,900 |
| Prif ffermwyr rhan-amser | 19,700 | 20,800 | 22,100 | 22,600 | 21,900 |
| Gweithwyr rheolaidd amser llawn | 4,700 | 3,800 | 3,700 | 3,300 | 3,700 |
| Gweithwyr rheolaidd rhan-amser | 4,200 | 3,400 | 2,800 | 2,800 | 3,100 |
| Gweithwyr achlysurol | 6,500 | 5,200 | 4,900 | 5,200 | 5,000 |
| **Newid er 1999** | | | | | |
| **Yr holl lafur ar ffermydd** | **0 y cant** | **-6 y cant** | **-5 y cant** | **-5 y cant** | **-7 y cant** |
| Prif ffermwyr amser llawn | 0 y cant | -8 y cant | -7 y cant | -8 y cant | -10 y cant |
| Prif ffermwyr rhan-amser | 0 y cant | 6 y cant | 12 y cant | 15 y cant | 11 y cant |
| Gweithwyr rheolaidd amser llawn | 0 y cant | -19 y cant | -22 y cant | -29 y cant | -20 y cant |
| Gweithwyr rheolaidd rhan-amser | 0 y cant | -17 y cant | -32 y cant | -33 y cant | -26 y cant |
| Gweithwyr achlysurol | 0 y cant | -21 y cant | -25 y cant | -21 y cant | -24 y cant |

Ffynhonnell: Cyfrifiad amaethyddol Cymru, ym mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'n rhoi amcangyfrif o'r holl weithwyr ar ffermydd yng Nghymru ac mae'n cynnwys pobl sydd â swyddi eraill oddi ar y fferm. Nid oes data ar gael am swyddi yn ymwneud ag amaethyddiaeth, nad ydynt yn cael eu gwneud ar ffermydd. Mae ffynonellau eraill yn edrych ar y 'prif ddiwydiant cyflogi'. Nid yw'r ffynonellau hyn, fodd bynnag, yn gwahaniaethu rhwng mecanig sy'n trin peiriannau fferm a mecanig heb gysylltiadau amaethyddol o gwbl, er enghraifft. Mae prif ffermwyr yn cynnwys y tirfeddiannwr neu'r tenant ynghyd â'i briod ac unrhyw bartneriaid busnes. Mae gweithwyr rheolaidd yn cynnwys rheolwyr ar gyflog.

## Treialon Chardon LL

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ai'r un yw'r systemau rheoli a nodwyd yn llythyr Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, dyddiedig 9 Mawrth, i awdurdod cymwys Ffrainc a'r system a ddefnyddiwyd yn y treialon asesiadau fferm gyfan o Chardon LL? (WAQ34022)

**Carwyn Jones:** Mae cyfundrefn B i reoli chwynladdwyr, a amlinellwyd yn y llythyr ar 9 Mawrth 2004 at awdurdod cymwys Ffrainc, yn gopi cywir o ofynion label drafft asesiadau fferm gyfan ar ddefnyddio glufosinate ammonium ar indrawn T25. Mae cyfundrefn A a amlinellwyd yn y llythyr yn caniatáu defnyddio chwynladdwyr eraill y caniateir eu defnyddio o dan gyfarwyddeb cynnyrch amddiffyn planhigion 91/414, ond nid ar y cyd â, nac ar ôl defnyddio, glufosinate ammonium.

## Effeithiau ar yr Amgylchedd yn Sgîl Systemau Rheoli Chardon LL

**Helen Mary Jones:** Pa astudiaethau sydd wedi'u cynnal ynghylch yr effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd yn sgîl y ddwy system reoli Chardon LL a nodwyd yn llythyr DEFRA, dyddiedig 9 Mawrth, i awdurdod cymwys Ffrainc? (WAQ34032)

**Carwyn Jones:** Ar sail data'r asesiadau fferm gyfan, mae'r Pwyllgor Cynghori ar Ryddhau i'r Amgylchedd wedi dod i'r casgliad na fyddai tyfu indrawn T25 yn y dyfodol o dan gyfundrefn reoli, megis cyfundrefn B, fel a wnaed yn nhreialon asesiadau fferm gyfan, yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Rhaid i unrhyw gynnyrch arall a ddefnyddir o dan gyfundrefn chwynladdwyr A, y cyfeiriwyd ati yn y llythyr ar 9 Mawrth 2004, fod wedi cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Llywodraeth o ran ei ddiogelwch a'i effeithiolrwydd o dan gyfarwyddeb Cynnyrch Amddiffyn Planhigion 91/414.

## Indrawn Porthiant Chardon LL

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd na fydd yn cymryd unrhyw gamau i hwyluso'r broses o gynhyrchu indrawn porthiant Chardon LL ar raddfa fasnachol yn y DU hyd nes iddo gynnal a chyhoeddi adolygiad o'r holl astudiaethau sydd ar gael iddo? (WAQ34034)

**Carwyn Jones:** Deallaf fod Bayer CropScience wedi cyhoeddi ei fod yn tynnu ei gais am restru Chardon LL yn genedlaethol yn ei ôl. Nid yw'r cwmni felly am geisio tyfu'r cnwd GM hwn yn fasnachol.

## Cynlluniau Datblygu Unedol

**Mark Isherwood:** Beth yw canllawiau/polisi cynllunio Cynulliad Cymru ar gyfer tai cymdeithasol yn y cynlluniau datblygu unedol y mae gofyn i gynghorau sir eu dilyn? (WAQ34036)

**Carwyn Jones:** Mae polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth y Cynulliad wedi'u nodi ym 'Mholisi Cynllunio Cymru', Mawrth 2002. Mae pennod 9 (Tai) yn nodi'r polisi ar ddarparu tai fforddiadwy, yn cynnwys tai cymdeithasol, gan ddatgan yn benodol fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol fesur faint o dai sydd eu hangen yn eu cynllun datblygu unedol, a chynnwys polisïau ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle canfuwyd angen, gan gynnwys unrhyw ardaloedd gwledig lle bydd safleoedd eithrio yn cael eu hystyried. Mae cyngor technegol manwl wedi cael ei gynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 2, 'Cynllunio a Thai Fforddiadwy'.

## Ailgylchu Sylweddau Ymbelydrol

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y bydd yr asesiad rheoleiddio ar gyfer y broses arloesol i ailgylchu sylweddau ymbelydrol yn dechrau? (WAQ34040)

**Carwyn Jones:** Mae'r broses reoleiddio i asesu'r broses arloesol i ailgylchu sylweddau ymbelydrol yn Amersham, Caerdydd, ar y gweill ac mae wedi ei chynnwys yn benodol yn y caniatâd diwygiedig a roddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Mawrth 2004. Mae arolygwyr gosodiadau niwclear yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rheoleiddio diogelwch pob proses ar y safle ac mae wedi rhoi offeryn trwydded yn caniatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen i'r cam gweithredu nesaf.

**Datblygiad Amersham**

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio ar gyfer yr asesiad rheoleiddio y rheoliadau drafft, 'Proposals for the Justification of Practices Involving Ionised Radiation' 2004, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, ac, os nad yw, pa weithdrefn arall y byddai'n cynnig ei defnyddio ar gyfer datblygiad Amersham er mwyn cydymffurfio ag erthygl 6 cyfarwyddeb Euratom? (WAQ34041)

**Rhodri Glyn Thomas:** Gan fod y Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yn ddeddfwriaeth ddatganoledig ac nad yw pwerau cyfochrog i wneud penderfyniadau wedi'u gweithredu, a yw'r Gweinidog yn bwriadu diystyru'r pwynt hwnnw o'r rheoliadau drafft mewn perthynas â'r asesiad brys o gyfiawnhad Amersham? (WAQ34042)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn fodlon bod y cyfiawnhad am yr arferion yn Amersham wedi'i ystyried yn 1995 a daethpwyd i'r casgliad bod cyfiawnhad i'r arferion. Ar sail hynny nid oes angen cynnal ymarferiad cyfiawnhau. Mae hyn, fodd bynnag, yn ddiymrwymiad o safbwynt unrhyw dystiolaeth newydd a phwysig a allai olygu bod angen adolygu'r penderfyniad cyfiawnhau hwnnw.

**Polisi ar Frechu (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**Glyn Davies:** Mewn achos o glwy'r traed a'r genau, beth fyddai polisi'r Gweinidog ar frechu? (WAQ34044)

**Carwyn Jones:** Pe ceid achos o glwy'r traed a'r genau, byddai brechu yn cael ei ystyried fel dull i reoli'r clefyd. Byddai penderfyniad i frechu yn dibynnu ar gyngor oddi wrth Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol Prydain Fawr, a byddai'r cyngor hwnnw yn ystyried y math neilltuol o'r clwy, yr epidemioleg, nodweddion y clefyd wrth iddynt ddatblygu, a lleoliad y clwy. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r mater ar hyn o bryd. Serch hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o negodi trosglwyddo'r pwerau iechyd anifeiliaid gweddilliol a fyddai'n rhoi'r cyfrifoldeb i mi.

**Tir Amaethyddol Organig yng Nghymru**

**Glyn Davies:** Yn sgîl ei ateb i WAQ29398, a yw canran y tir amaethyddol yng Nghymru sy'n dir organig wedi cynyddu, ac, os felly, gan faint? (WAQ34045)

**Carwyn Jones:** Er 1 Ebrill 2003, mae 34 o ffermwyr wedi ymuno â'r Cynllun Ffermio Organig sy'n golygu bod 2727ha ychwanegol o dir yn cael ei droi'n organig.

**Plannu Cnydau a Addaswyd yn Enynnol a'u Cynhyrchu ar Raddfa Fasnachol yn y DU**

**Mick Bates:** Beth yw'r amserlen ar gyfer plannu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enynnol, a'u cynhyrchu ar raddfa fasnachol, yn y DU? (WAQ34058)

**Carwyn Jones:** Deallaf fod Bayer CropScience wedi tynnu ei gais am ychwanegu Chardon LL at y rhestr genedlaethol yn ôl. O ganlyniad, nid oes cnwd GM yn debygol o gael ei dyfu ar raddfa fasnachol yn y DU yn 2005. Bydd yr amserlen ar gyfer tyfu cnydau o'r fath ar raddfa fasnachol ar ôl 2005 yn dibynnu ar geisiadau dilynol i restru cnydau GM eraill yn genedlaethol. Ni waeth pa geisiadau a ddaw i law, ni fydd y Cynulliad yn cefnogi tyfu cnydau GM yn fasnachol hyd nes y bydd mesurau cydfodoli cryf wedi cael eu sefydlu.

**Cyfarfodydd gyda Gweinidogion y DU ar Gnydau a Addaswyd yn Enynnol**

**Mick Bates:** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi cwrdd â Gweinidogion eraill y DU i drafod cnydau a addaswyd yn enynnol, ac a yw'n bosibl gweld agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd hynny? (WAQ34059)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth gyda'm cyd-Weinidogion yn Whitehall a'r gweinyddiaethau datganoledig ynglŷn â chnydau GM. Byddai'n amhriodol imi ddadlennu manylion y trafodaethau cyfrinachol hyn.

**Tir Gofal**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ar gyfer pob blwyddyn er 1999 nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Tir Gofal, nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus a nifer yr ymgeiswyr aflwyddiannus? (WAQ34072)

**Carwyn Jones:** Mae'r wybodaeth fel a ganlyn:

| Bl | Nifer y ceisiadau | Nifer y cytundebau | Ceisiadau aflwyddiannus | Dan drafodaeth/yn aros am ymweliad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. |
|---|---|---|---|---|
| 1999 | 1449 | 525 | 924 | |
| 2000 | 881 | 470 | 411 | |
| 2001 | 1254 | 826 | 382 | 46 |
| 2003 | 1915 | 208 | 26 | 1681 |
| Cyf | 5499 | 2029 | 1743 | 1727 |

Noder: Ni fu cylch ymgeisio yn 2002.

**Rhestru Chardon LL**

**Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion eraill y DU ynghylch rhestru Chardon LL? (WAQ34075)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi cynnal llawer o drafodaethau gyda'm cyd-Weinidogion yn San Steffan a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynglŷn â rhestru Chardon LL. Fodd bynnag, deallaf fod Bayer CropScience wedi tynnu ei gais am ychwanegu Chardon LL at y rhestr genedlaethol yn ôl, erbyn hyn.

**Grŵp Strategaeth yr Holl Bleidiau ar Gnydau GM**

**Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddiwygio grŵp strategaeth yr holl bleidiau ar gnydau GM? (WAQ34076)

**Carwyn Jones:** Nid oes gennyf gynlluniau i ddiwygio grŵp strategaeth yr holl bleidiau ar gnydau GM gan mai drwy gonsensws yr ydym yn ymdrin â pholisi GM o fewn y Cynulliad.

**Cnydau GM a Rhestru Chardon LL**

**Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi'r cyngor gwyddonol a chyfreithiol cyfredol a roddir i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cnydau GM, a rhestru Chardon LL yn arbennig? (WAQ34077)

**Carwyn Jones:** Deallaf fod Bayer CropScience wedi tynnu ei gais am ychwanegu Chardon LL at y rhestr genedlaethol yn ôl. Nid oes gennyf gynlluniau i ryddhau unrhyw gyngor gwyddonol na chyfreithiol nad yw eisoes wedi cael ei gyhoeddi.

## Cnydau GM

**Mick Bates:** Pryd y bydd yr ymgynghoriadau ar fesurau cydfodoli cnydau GM, parthau rhydd rhag cnydau GM gwirfoddol a iawndal o ganlyniad i halogi gan gnydau GM yn dechrau? (WAQ34078)

**Carwyn Jones:** Mae trafodaethau ar lefel swyddogion ar y gweill gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill gyda golwg ar ymgynghori ynghylch y mater o fewn y misoedd nesaf.

## Rhestru Chardon LL

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y caiff Aelodau'r Cynulliad y cyfle i bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn ar restru Chardon LL ac y bydd yn rhaid i'r Gweinidogion weithredu yn unol â chanlyniad y bleidlais honno? (WAQ34079)

**Carwyn Jones:** Deallaf fod Bayer CropScience wedi tynnu ei gais am ychwanegu Chardon LL at y rhestr genedlaethol yn ôl. O ganlyniad, mae sôn am bleidlais mewn Cyfarfod Llawn yn amherthnasol.

## Ymgeiswyr Aflwyddiannus am Gyllid Tir Gofal

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog esbonio faint o ymgeiswyr aflwyddiannus am gyllid Tir Gofal sydd wedi methu â bodloni'r amodau ymaelodi bob blwyddyn o 1999 hyd heddiw? (WAQ34088)

**Carwyn Jones:** Dyma nifer yr ymgeiswyr aflwyddiannus am gyllid Tir Gofal bob blwyddyn er 1999:

| Cais aflwyddiannus | |
|---|---|
| Cylch | Ceisiadau |
| 1999 | 1,265 |
| 2000 | 441 |
| 2001 | 382 |
| 2003 | 26 |

## Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd a wnaeth awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o gyhoeddiad ar wefan i hysbysu'r cyhoedd o ddeddfwriaeth newydd? (WAQ34110)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymgynghoriadau cyhoeddus awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn mabwysiadu'n ffurfiol y protocol is-deddfwriaeth/cynllunio sy'n effeithio ar y cyhoedd yn uniongyrchol? (WAQ34111)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y math o gyfryngau, neu'r cyfuniad o fathau o gyfryngau, a ddefnyddir gan awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn ymgynghoriadau ar gyfer is-ddeddfwriaeth? (WAQ34112)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r protocol cynllunio, a gymeradwywyd gan awdurdod y parc cenedlaethol, yn is-ddeddfwriaeth. Mae ar wahân i god ymddygiad yr awdurdod, a deallaf fod yr awdurdod wedi penderfynu ei baratoi er mwyn rhoi canllawiau manwl i Aelodau sy'n ymdrin â materion cynllunio. Mater i awdurdod y parc cenedlaethol yw ystyriaethau'n ymwneud â pharatoi, cymeradwyo a lledaenu'r protocol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

### Gwasanaethau Llywodraeth Leol

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith o wella gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ33185)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae rhaglen Cymru ar gyfer gwella wedi profi ei hun yn fframwaith effeithiol er mwyn dechrau gyrru gwelliannau i wasanaethau llywodraeth leol yn eu blaen, fel a gadarnhawyd yn adroddiad y Comisiwn Archwilio ar flwyddyn weithredol gyntaf y rhaglen. Mae llawer o waith i’w wneud eto a byddwn yn parhau â’r ymgyrch i wella gwasanaethau, ond mae’r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi croesawu rhaglen Cymru ar gyfer gwella fel fframwaith effeithiol er mwyn cyflenwi gwasanaethau yn well, ac mae’r manteision i’w gweld yn barod.

### Staff o Gefndir Lleiafrifol Ethnig

**Nick Bourne:** Pa ganran o staff sy’n gweithio i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy’n dod o gefndir lleiafrifol ethnig, ac a wnaiff y Gweinidog nodi’r nifer ar gyfer pob ardal leiafrifol ethnig ac ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ34017)

**Sue Essex:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei chadw’n ganolog. Fodd bynnag, yr ydym wedi hysbysu CCNC o’u cyfrifoldebau cyffredinol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000, y maent i gyd yn cydymffurfio â hi. Mae’r CCNC gweithredol i gyd yn monitro eu staff fel sy’n ofynnol o dan y Ddeddf ac maent un ai wedi cynhyrchu (neu maent yn y broses o gynhyrchu) eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol eu hunain neu wedi sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau drwy roi sylw priodol i gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.

### Cyllid Ychwanegol i Ysgolion Cynradd

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym faint o arian ychwanegol a fydd yn cael ei roi i’r portffolio addysg, yn dilyn y cyhoeddiad gan y Gweinidog cyfatebol yn San Steffan y bydd £55,000 ychwanegol yn cael ei roi i bob ysgol gynradd? (WAQ34019)

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd yn y gyllideb a fydd yn cael ei roi i’r portffolio addysg, o ystyried y cyhoeddiad gan y Canghellor yn ei gyllideb y bydd £55,000 ychwanegol yn cael ei roi i bob ysgol gynradd? (WAQ34020)

**Sue Essex:** Darparodd y Canghellor £99 miliwn ychwanegol yn 2006-07 a £219 miliwn ychwanegol yn 2007-08 ar gyfer y Cynulliad. Mater i Lywodraeth y Cynulliad yw penderfynu sut y caiff yr arian ei ddyrannu yng Nghymru. Caiff y penderfyniadau hyn eu nodi yn y gyllideb ddrafft yn yr hydref.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Canllawiau Gofal Iechyd y GIG

**Sandy Mewies:** Yn dilyn WAQ32004, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses o adolygu canllawiau gofal iechyd y GIG? (WAQ33905)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae’r gwaith o gynhyrchu canllawiau newydd ar ddarparu gofal iechyd parhaus o fewn y GIG yn mynd rhagddo. Mae fersiwn ddrafft yn destun ymgynghori allanol ar hyn o bryd, a’r dyddiad cau er mwyn ymateb yw 28 Mai. Dylai’r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi erbyn diwedd haf 2004.

Gan adeiladu ar hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain grŵp prosiect i Gymru gyfan, gyda chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, i ddatblygu fframwaith a fydd yn fodd i roi polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â gofal iechyd parhaus o fewn y GIG ar waith ledled Cymru. Tra bo'r cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth gyfreithiol a theg o ran gofal iechyd parhaus o fewn y GIG yn gorffwys gyda'r byrddau iechyd lleol, nod y fframwaith fydd datblygu dull gweithredu llawer mwy cyson a theg ar draws Cymru. Y bwriad yw ymgynghori ynghylch y fframwaith yn haf 2004, a'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y byrddau iechyd lleol wedyn yn mynd ati i'w roi ar waith yn lleol.

### Cynllun Peilot y Set Wybodaeth am Ganser

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar gynllun peilot set gwybodaeth canser (CanIS)? (WAQ33944)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog nodi pryd y mae cynllun peilot set gwybodaeth canser (CanIS) i fod i ddod i ben? (WAQ33945)

**Jane Hutt:** Yr wyf am ateb y ddau gwestiwn gyda'i gilydd. Gwn fod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gyda phrosiect System Wybodaeth Rhwydwaith Canser Cymru (CaNISC). Mae'r cerrig milltir o bwys a gyrhaeddwyd ers dechrau'r flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- mae'r dasg raddol o roi'r tair set ddata gyntaf ar waith yn llawn, ar ganserau'r ysgyfaint a'r fron a chanser colonig-rhefrol, yn mynd rhagddo'n dda, a dylai fod wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill;
- mae'r holl dimau amlddisgyblaethol sy'n ymdrin â chanser yr ysgyfaint o fewn rhwydwaith canser gogledd Cymru wedi bod yn casglu set ddata'r ysgyfaint am achosion newydd o ganser yr ysgyfaint sy'n dod ger eu bron ers dechrau mis Ionawr. Mewn dwy o'r tair ymddiriedolaeth arall mae casglu data yn yr arfaeth ar gyfer CaNISC; ac
- mae'r defnydd llwyddiannus o CaNISC yn y tîm amlddisgyblaethol yn Ysbyty Treforys yn peri i dimau amlddisgyblaethol eraill ar draws Cymru ofyn am gael manteisio ar y system yn yr un modd. Mae hyn yn cael ei dywys yn ei flaen gyda'r ymddiriedolaethau.

Yn ychwanegol, mae'r gronfa cyfleoedd newydd wedi darparu cyllid a chafwyd cymorth hefyd o du Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer hyfforddwyr a gwaith rheoli prosiectau. Oherwydd natur yr arian hwn oddi wrth y gronfa cyfleoedd newydd, bu'n rhaid i brosiect CaNISC fynd ati i weithredu fesul cam. Nod y cam cyntaf, sydd wedi'i ariannu tan fis Mawrth 2005, yw helpu i ddarparu gwybodaeth glinigol a gwybodaeth am brosesau i'r timau canser er mwyn hybu'r safonau canser ac archwiliadau clinigol ar lefelau lleol, Cymru gyfan, a'r DU gyfan. Mae bwrdd prosiect CaNISC yn argymell dylid defnyddio CaNISC i ddarparu'r wybodaeth am amseroedd aros sy'n ofynnol erbyn hyn er mwyn iddo gyflawni ei dargedau o dan y fframwaith gwasanaeth a chyllid o ran gwasanaethau canser. Mae'r grŵp cydlynu gwasanaethau canser yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â chyllid ychwanegol i'r dyfodol. Pe câi'r cyllid hwn ei sicrhau, câi'r cam cyntaf ei gyfnerthu a'i ymestyn i gam 2, a fyddai'n rhoi sylw i'r cyswllt rhwng y timau canser a gofal sylfaenol.

### Cyfeirio Cleifion yr Amheuir bod Canser Arnynt

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog sôn am y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i fesur ansawdd y wybodaeth y mae meddygon teulu yn ei rhoi i ymgynghorwyr wrth gyfeirio cleifion yr amheuir bod canser arnynt? (WAQ33947)

**Jane Hutt:** Daeth y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol i rym ar 1 Ebrill. Daw â buddsoddiad sylweddol yn ei sgîl i wella ansawdd yr holl wasanaethau meddygol cyffredinol. Mae gwasanaethau i gleifion canser wedi'u cynnwys yn y fframwaith ansawdd a chanlyniadau newydd. Bydd parth trefniadaethol y fframwaith yn canolbwyntio ar wella gwybodaeth a chofnodion ac ar gyfathrebu'n well â chleifion. Mesurir cynnydd pob practis yn erbyn dangosyddion a system o bwyntiau ansawdd.

**Y Broses o Gyfeirio Cleifion yr Amheuir bod Canser Arnynt**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wella'r broses o gyfeirio cleifion yr amheuir bod canser arnynt yng Nghymru? (WAQ33948)

**Jane Hutt:** Yng ngogledd Cymru, yr ydym yn treialu holiadur gwybodaeth am y claf a weinyddir gan y claf ei hun, sy'n ceisio sicrhau bod yr ymgynghorydd yn yr ysbyty yn cael mwy o wybodaeth i seilio ei benderfyniadau arni. Mae'r adborth cychwynnol ar hyn yn gadarnhaol iawn a gobeithiaf y bydd modd defnyddio'r system yn fwy eang.

**Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (Effaith ar Wasanaethau Canser yng Nghymru)**

**Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chydweithwyr yn y DU ar yr effaith y bydd y gyfarwyddeb oriau gwaith yn ei chael ar wasanaethau canser yng Nghymru? (WAQ33949)

**Jane Hutt:** Mae Cyd-Bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn cynnwys Gweinidogion o bob un o bedair gwlad y DU a bu'n cwrdd dros y misoedd diwethaf i drafod rhoi cyfarwyddeb oriau gwaith Ewrop ar waith.

Ceir cyfnewid barn rhwng Gweinidogion Whitehall a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig ar oblygiadau cyfarwyddeb oriau gwaith Ewrop i wasanaethau cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys iechyd.

| Math o staff | Medi 1997 cyfwerth ag amser llawn | Medi 2002 cyfwerth ag amser llawn | Canran y cynnydd |
|---|---|---|---|
| Staff ymgynghorol meddygol a chlinigol | 14.9 | 21.3 | 43 |
| Staff meddygol oncoleg glinigol | 30.7 | 42.07 | 39 |
| Staff meddygol oncoleg feddygol | 1.2 | 1.94 | 61 |
| Staff meddygol meddygaeth liniarol | 17.0 | 25.62 | 51 |
| Stadd meddygol radioleg | 117.6 | 139.2 | 18 |
| Radiograffwyr diagnostig | 725.8 | 849.7 | 17 |
| Radiograffwyr therapiwtig | 59.2 | 91.9 | 55 |

Yn ychwanegol, er mis Ebrill 2001, cymeradwywyd cyfanswm o 72 o swyddi ychwanegol i gofrestryddion arbenigol, yn cynnwys tair swydd ym maes oncoleg glinigol, pedair mewn oncoleg feddygol, saith mewn histopatholeg a phedair mewn meddygaeth liniarol. Nid yw'r ffigurau i Gymru gyfan am staff nyrsio yn cael eu dadansoddi i ddangos pa staff sy'n delio â chleifion canser. Fodd bynnag, nifer y nyrsys a gâi eu cyflogi yn ysbyty Felindre, prif ganolfan triniaethau canser Cymru, oedd 105.8 cyfwerth ag amser llawn ym mis Medi 1997 a 138.9 cyfwerth ag amser llawn ym mis Medi 2002, sy'n cynrychioli cynnydd o 31 y cant.

Er nad oes gan arloesi mewn gofal raglen benodol yn targedu gwasanaethau canser, maent serch hynny yn rhan annatod o sawl cynllun arloesi. Mae'r rhaglenni i gleifion allanol, llawdriniaethau, llawdriniaeth ddydd ac endosgopi, a'r rhaglen i roi'r canllawiau arferion da ar waith, i gyd yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau canser effeithiol ac ar eu capasiti. Gwnaed gwaith hefyd y llynedd gan arloesi mewn gofal a oedd yn golygu asesu'r gwasanaethau a ddarperir gan rwydwaith canser de-ddwyrain Cymru. Yn ogystal, mae staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau canser wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau dysgu arloesi mewn gofal.

Mae'r tri rhwydwaith canser hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu er mwyn rhoi'r safonau canser ar eu newydd wedd ar waith. Caiff y safonau hyn a ddiweddarwyd eu rhyddhau i'r GIG cyn bo hir, ar ôl yr ymgynghoriad sydd ar y gweill ar hyn o bryd sy'n rhoi sylw i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ac i'r canllawiau gwasanaeth ar wella canlyniadau, gan gynnwys agweddau llawfeddygol neu wasanaethau canser wrolegol, canser rhan uchaf y bibell gastroberfeddol a chanser gynaecolegol. Bydd cynlluniau gweithredu'r rhwydweithiau yn cael eu

datblygu yn dilyn ymarferion mapio, capasiti a galw. Mae angen i'r cynlluniau hyn gynnwys cerrig milltir mesuradwy clir sy'n ymdrin â'r mecanweithiau adrodd fel bod modd monitro pa mor hir mae cleifion yn aros o'r adeg y cânt eu cyfeirio hyd nes i'w triniaeth ddechrau. Yn ogystal, mae angen i'r cynlluniau hyn fwydo i'r gwaith a wneir gan y byrddau iechyd lleol o ran datblygu'r strategaethau lles iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen iddynt ystyried yr arian sydd ar gael.

Law yn llaw â'r newid pwyslais hwn, yr wyf wedi gosod dau darged fframwaith gwasanaeth a chyllid i'r GIG y flwyddyn nesaf yn y maes hwn. Yn gyntaf, erbyn diwedd mis Medi, disgwyliaf i ymddiriedolaethau GIG Cymru fod wedi sefydlu system i adrodd yn chwarterol am ba mor hir yw'r amseroedd aros i gleifion sydd newydd dderbyn diagnosis canser, a gyfeiriwyd fel achosion brys yr amheuir bod canser arnynt ac y cadarnheir natur frys yr achos gan yr arbenigwr, o'r adeg y derbynnir y cais cyfeirio yn yr ysbyty tan ddechrau'r driniaeth swyddogol. Yn ail, yr wyf wedi gosod targed sy'n pennu fy mod hefyd, o fis Medi, yn disgwyl i ymddiriedolaethau'r GIG weithredu system i gofnodi'r amser rhwng y diagnosis a dechrau'r driniaeth swyddogol i gleifion sydd newydd dderbyn diagnosis canser nad ydynt yn cael eu cyfeirio fel achosion brys yr amheuir bod canser arnynt. Bydd swyddfeydd rhanbarthol y GIG yn monitro perfformiad yr ymddiriedolaethau yn erbyn y targedau hyn yr wyf wedi'u gosod.

**Mynd i'r Afael â'r Prinder Capasiti yn y Gwasanaethau Canser yng Nghymru**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â phrinder capasiti gwasanaethau canser Cymru? (WAQ33950)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'r tri rhwydwaith canser yn eu cymryd i fynd i'r afael â phrinder capasiti gwasanaethau yng Nghymru? (WAQ33951)

**Jane Hutt:** Yr wyf am ateb y ddau gwestiwn gyda'i gilydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio mewn sawl cyfeiriad i gynyddu capasiti gwasanaethau canser. Mae'r rhain yn cynnwys y gweithlu, ein rhaglen arloesi mewn gofal a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y tri rhwydwaith canser. Mae'r ffigurau staffio diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi am Gymru gyfan yn dangos bod y ddarpariaeth o ran gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn y gwasanaethau canser diagnostig a thrin wedi cynyddu erbyn mis Medi 2002 o'i gymharu â mis Medi 1997:

| **Math o staff** | **Medi 1997 cyfwerth ag amser llawn** | **Medi 2002 cyfwerth ag amser llawn** | **Canran y cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Staff ymgynghorol meddygol a chlinigol | 14.9 | 21.3 | 43 |
| Staff meddygol oncoleg glinigol | 30.7 | 42.07 | 39 |
| Staff meddygol oncoleg feddygol | 1.2 | 1.94 | 61 |
| Staff meddygol meddygaeth liniarol | 17.0 | 25.62 | 51 |
| Staff meddygol radioleg | 117.6 | 139.2 | 18 |
| Radiograffwyr diagnostig | 725.8 | 849.7 | 17 |
| Radiograffwyr therapiwtig | 59.2 | 91.9 | 55 |

Yn ychwanegol, er mis Ebrill 2001, cymeradwywyd cyfanswm o 72 o swyddi ychwanegol i gofrestryddion arbenigol, yn cynnwys tair swydd ym maes oncoleg glinigol, pedair mewn oncoleg feddygol, saith mewn histopatholeg a phedair mewn meddygaeth liniarol. Nid yw'r ffigurau i Gymru gyfan am staff nyrsio yn cael eu dadansoddi i ddangos pa staff sy'n delio â chleifion canser. Fodd bynnag, nifer y nyrsys a gâi eu cyflogi yn ysbyty Felindre, prif ganolfan triniaethau canser Cymru, oedd 105.8 cyfwerth ag amser llawn ym mis Medi 1997 a 138.9 cyfwerth ag amser llawn ym mis Medi 2002, sy'n cynrychioli cynnydd o 31 y cant.

Er nad oes gan arloesi mewn gofal raglen benodol yn targedu gwasanaethau canser, maent serch hynny yn rhan annatod o sawl cynllun arloesi. Mae'r rhaglenni i gleifion allanol, llawdriniaethau, llawdriniaeth

ddydd ac endosgopi, a'r rhaglen i roi'r canllawiau arferion da ar waith, i gyd yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau canser effeithiol ac ar eu capasiti. Gwnaed gwaith hefyd y llynedd gan arloesi mewn gofal a oedd yn golygu asesu'r gwasanaethau a ddarperir gan rwydwaith canser de-ddwyrain Cymru. Yn ogystal, mae staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau canser wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau dysgu arloesi mewn gofal.

Mae'r tri rhwydwaith canser hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu er mwyn rhoi'r safonau canser ar eu newydd wedd ar waith. Caiff y safonau hyn a ddiweddarwyd eu rhyddhau i'r GIG cyn bo hir ar ôl yr ymgynghoriad, sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac sy'n rhoi sylw i NICE ac i'r canllawiau gwasanaeth ar wella canlyniadau, gan gynnwys agweddau llawfeddygol neu wasanaethau canser wrolegol, canser rhan uchaf y bibell gastroberfeddol a chanser gynaecolegol. Bydd cynlluniau gweithredu'r rhwydweithiau yn cael eu datblygu yn dilyn ymarferion mapio, capasiti a galw. Mae angen i'r cynlluniau hyn gynnwys cerrig milltir mesuradwy clir sy'n ymdrin â'r mecanweithiau adrodd fel bod modd monitro pa mor hir mae cleifion yn aros o'r adeg y cânt eu cyfeirio hyd nes i'w triniaeth ddechrau. Yn ogystal, mae angen i'r cynlluniau hyn fwydo i'r gwaith a wneir gan y byrddau iechyd lleol o ran datblygu'r strategaethau lles iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen iddynt ystyried yr arian sydd ar gael.

### Amserau Aros ar gyfer Gwasanaethau Canser

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar yr amserau aros ar gyfer gwasanaethau canser. (WAQ33952)

**Jane Hutt:** O dan y safon bresennol ar ganser, lle caiff cleifion eu cyfeirio gan eu meddyg teulu fel achos bryd, mater i'r clinigwyr canser sy'n derbyn y cais cyfeirio yw penderfynu faint o frys sydd ynghlwm wrth yr achos ac a ddylai'r claf gael ei weld o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae'r ymddiriedolaethau i gyd yn monitro a ydynt yn cydymffurfio â'r amserlen hon ac maent yn gweithio i wella eu perfformiad. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddiweddaru'r safonau canser ac, yn y dyfodol, rhoddir mwy o bwyslais ar amseroedd aros o'r adeg y caiff claf ei gyfeirio hyd nes y bydd y driniaeth yn dechrau.

Law yn llaw â'r newid pwyslais hwn, yr wyf wedi gosod dau darged fframwaith gwasanaeth a chyllid i'r GIG y flwyddyn nesaf yn y maes hwn. Yn gyntaf, erbyn diwedd mis Medi, disgwyliaf i ymddiriedolaethau GIG Cymru fod wedi sefydlu system i adrodd yn chwarterol am ba mor hir yw'r amseroedd aros i gleifion sydd newydd dderbyn diagnosis canser, a gyfeiriwyd fel achosion brys yr amheuir bod canser arnynt ac y cadarnheir natur frys yr achos gan yr arbenigwr, o'r adeg y derbynnir y cais cyfeirio yn yr ysbyty tan ddechrau'r driniaeth swyddogol. Yn ail, yr wyf wedi gosod targed sy'n pennu fy mod hefyd, o fis Medi, yn disgwyl i ymddiriedolaethau'r GIG weithredu system i gofnodi'r amser rhwng y diagnosis a dechrau'r driniaeth swyddogol i gleifion sydd newydd dderbyn diagnosis canser nad ydynt yn cael eu cyfeirio fel achosion brys yr amheuir bod canser arnynt. Bydd swyddfeydd rhanbarthol y GIG yn monitro perfformiad yr ymddiriedolaethau yn erbyn y targedau hyn yr wyf wedi'u gosod.

### Cost Gwelyau wedi'u Blocio i'r GIG yng Nghymru

**Jonathan Morgan:** Faint y mae gwely wedi'i flocio yn ei gostio i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru bob dydd a phob mis? (WAQ33953)

**Jane Hutt:** Ar gyfartaledd, cost gwely aciwt i oedolyn yn y GIG yw £298 y dydd, yn ôl costau 2003-04, sy'n cyfateb i £9,000 y mis. Mae hyn yn adlewyrchu cost y gofal y gellid ei roi i gleifion pe bai gwely, sy'n llawn oherwydd oedi cyn trosglwyddo gofal, ar gael ar gyfer triniaethau.

## Iaith Arwyddion Prydain

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddarparu a hybu hyfforddiant ar gyfer staff yn y GIG ar ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain er mwyn eu helpu i gyfathrebu â chleifion? (WAQ33993)

**Jane Hutt:** Cyfarfûm yn ddiweddar â chydweithwyr o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar i drafod adroddiad diweddar y sefydliad, 'A Simple Cure'. Yr wyf yn croesawu'r adroddiad hwn, sy'n dangos yn glir lawer o'r materion sydd o bwys i bobl fyddar neu bobl drwm eu clyw o ran cyrchu at ofal iechyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n bendant i sicrhau bod anghenion gwahanol pobl yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal iechyd

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn cydnabod yn benodol ofynion neilltuol pobl sydd â nam ar eu synhwyrau ac, yng Nghymru, mae'r byrddau iechyd lleol yn mynd ati i gefnogi darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl fyddar neu bobl drwy eu clyw drwy drefniadau lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Bydd byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn gyfrifol hefyd am drefnu'r hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen y GIG. Hysbysir staff y GIG o faterion cydraddoldeb ar sail generig.

## Y Rhestrau Aros ar gyfer Llawdriniaethau ar y Glun

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhestrau aros ar gyfer llawdriniaethau ar y glun yng Nghymru? (WAQ33994)

**Jane Hutt:** Buddsoddwyd yn sylweddol er mwyn lleihau'r amseroedd aros hwyaf am lawdriniaethau ar y glun yng Nghymru i 18 mis. Mae pob ymddiriedolaeth yng Nghymru wedi dweud y cyflawnir hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2004.

## Toriadau o ran Hyfforddiant i Nyrsys

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar doriadau o ran hyfforddiant i nyrsys ac ar unrhyw drafodaethau ynghylch y toriadau o ran hyfforddiant i nyrsys yng Nghymru? (WAQ33995)

**Jane Hutt:** Cafodd y gyllideb addysg a hyfforddiant ganolog i staff anfeddygol yn 2004-05 ei chynyddu 7.6 y cant uwchlaw cyllideb 2003-04.

Er 1999, mae'r buddsoddiad canolog blynyddol mewn addysg a hyfforddiant i bob grŵp staff wedi codi 73 y cant. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y codiadau blynyddol gogyfer â chwyddiant.

Er 1999, mae'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i'w hyfforddi'n nyrsys wedi cynyddu 39 y cant. Bydd penderfyniadau buddsoddi manwl ar gyfer 2004-05 yn adlewyrchu fy ymrwymiad i'r targed o ddenu 6,000 yn fwy o nyrsys i'r gwasanaeth erbyn 2010. Mae pethau'n mynd yn dda ac mae'r targed hwn yn cael ei gyflawni drwy barhau i gynyddu'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant cyn-cofrestru, nifer y cyrsiau dychwelyd i ymarfer a chynlluniau recriwtio a chadw eraill.

## Nifer yr Ysmygwyr o dan 16 Oed

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog am nifer yr ysmygwyr dan 16 oed yn ardal pob bwrdd iechyd lleol, ac a wnaiff gyhoeddi nifer yr ysmygwyr yn ystod y pum mlynedd diwethaf sydd o dan yr oedran hwn? (WAQ33997)

**Jane Hutt:** Y ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy ar ymddygiad ysmygu ymysg pobl ifanc yng Nghymru yw astudiaeth gydweithrediadol Sefydliad Iechyd y Byd i ymddygiad iechyd plant o oed ysgol, sydd wedi cael ei chynnal bob dwy flynedd yng Nghymru er 1986. Mae'r astudiaeth, sydd wedi'i seilio ar ysgolion, yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â pha mor gyffredin yw ysmygu ymysg pobl ifanc 11 i 16 oed. Dylai'r

adroddiad rhyngwladol diweddaraf gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2004, er bod adroddiadau blaenorol yn awgrymu bod y cyfraddau ysmygu drwyddynt draw yng Nghymru wedi gostwng ymysg bechgyn ac wedi sefydlogi ymysg merched dros y blynyddoedd diwethaf (gweler y tabl). Mae pob gwlad sy'n cymryd rhan yn dilyn protocol ymchwil rhyngwladol, gan gynnwys samplu, sy'n golygu bod angen samplau cynrychiadol o oddeutu 1,500 o bobl ifanc ym mhob grŵp oedran. Mae hyn yn rhoi inni amcangyfrifon gweddol gadarn ar lefel genedlaethol ond nid yw maint y sampl yn caniatáu inni ddadansoddi'r wybodaeth ar lefel y byrddau iechyd lleol.

| **Canran sy'n ysmygu'n wythnosol yng Nghymru, pobl ifanc 11 i 16 oed, 1986-2000** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1986 | 1988 | 1990 | 1992 | 1994 | 1996 | 1998 | 2000 |
| 11-12 | Bechgyn | 2 | 2 | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 |
| | Merched | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 4 | 3 | 2 |
| 13-14 | Bechgyn | 7 | 9 | 8 | 10 | 8 | 11 | 8 | 6 |
| | Merched | 12 | 11 | 11 | 15 | 13 | 16 | 19 | 17 |
| 15-16 | Bechgyn | 16 | 12 | 14 | 18 | 18 | 23 | 21 | 20 |
| | Merched | 20 | 19 | 22 | 25 | 26 | 29 | 29 | 29 |

### Nifer yr Ysmygwyr yn Ardal Pob Bwrdd Iechyd Lleol

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog ynglŷn â nifer yr ysmygwyr yn ardal pob bwrdd iechyd lleol, yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf, ac a wnaiff gyhoeddi'r wybodaeth hon? (WAQ33998)

**Jane Hutt:** Mae data o arolwg iechyd Cymru 1998, a gyhoeddwyd yn 1999, ar gael ar lefel y byrddau iechyd lleol (gweler y tabl). Dechreuodd y gwaith maes ar arolwg iechyd newydd Cymru ym mis Hydref 2003 a bydd yn parhau dros gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau. Rhagwelir y caiff canfyddiadau eu cyhoeddi ar gyfer ardaloedd y byrddau iechyd lleol yng ngwanwyn 2006. Yn ogystal, mae arolwg Cymru o'r defnydd a wneir o sylweddau gan oedolion, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn cynnwys cwestiynau am ddefnyddio tybaco. Bydd y data ar gael yn hydref 2004, er na fydd maint y sampl ar gyfer yr astudiaeth hon yn caniatáu inni ddadansoddi'r data fesul ardaloedd y byrddau iechyd lleol.

Canran yr oedolion dros 18 oed sy'n ysmygu'n ddyddiol neu'n achlysurol, Cymru, 1998

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 30 |
| Gwynedd | 27 |
| Conwy | 26 |
| Sir Ddinbych | 28 |
| Sir y Fflint | 26 |
| Wrecsam | 25 |
| Powys | 22 |
| Ceredigion | 24 |
| Sir Benfro | 26 |
| Sir Gaerfyrddin | 26 |
| Abertawe | 27 |
| Castell-nedd Port Talbot | 26 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26 |
| Bro Morgannwg | 26 |
| Caerdydd | 29 |
| Rhondda Cynon Taf | 29 |
| Merthyr Tudful | 31 |
| Caerffili | 27 |
| Blaenau Gwent | 30 |
| Tor-faen | 27 |
| Sir Fynwy | 24 |
| Casnewydd | 27 |

| CYMRU | 27 |
|---|---|

**Ffynhonnell:** Arolwg iechyd Cymru 1998, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (1999). Canlyniadau ail arolwg iechyd Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.

**Safonau Hyfforddi wrth Ddarparu Gwasanaethau Gofal**

**Nick Bourne:** Sut mae'r Gweinidog yn monitro safonau hyfforddi wrth ddarparu gwasanaethau gofal? (WAQ33999)

**Jane Hutt:** Cyngor Gofal Cymru yw'r asiantaeth sy'n rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac yn monitro ansawdd hyfforddiant o'r fath drwy ei systemau cymeradwyo a sicrhau ansawdd. Caiff ansawdd hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'r sector gofal, er enghraifft Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, ei sicrhau gan y cyrff dyfarnu perthnasol a chan y corff sy'n darparu'r hyfforddiant.

**Trosglwyddo Pecynnau Gofal**

**Nick Bourne:** Pa drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod pecynnau gofal yn cael eu trosglwyddo'n ddidramgwydd pan fydd defnyddwyr gwasanaethau yn adleoli i ardal awdurdod lleol newydd? (WAQ34000)

**Jane Hutt:** Fel rhan o'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pecynnau gofal defnyddwyr yn cael eu trosglwyddo'n ddidramgwydd wrth i'r trefniadau rheoli gofal gael eu trosglwyddo pan fydd defnyddwyr a'u gofalwyr yn symud i ardal awdurdod lleol newydd. Mae'n arfer sydd wedi ennill ei blwyf i'r awdurdod lleol dros yr ardal y mae'r defnyddiwr yn symud ohoni roi gwybod i'r awdurdod lleol newydd am yr anghenion sydd wedi cael eu hasesu a byddai disgwyl i'r awdurdod lleol newydd ymgynghori yn y ffordd arferol ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n symud i'w ardal.

**Canllawiau gan NICE ar gyfer Trin Arthritis**

**Glyn Davies:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u cael oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol mewn perthynas â thrin arthritis? (WAQ34005)

**Jane Hutt:** Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol wedi rhoi'r canllawiau arfarniad technoleg canlynol mewn perthynas ag arthritis i'r GIG yng Nghymru a Lloegr:

- atalyddion cox-II i drin osteoarthritis ac arthritis gwynegol, cyhoeddwyd fis Gorffennaf 2001—canllawiau arfarniad technoleg rhif 27;
- etanercept i drin arthritis idiopathig mewn pobl ifanc, cyhoeddwyd fis Mawrth 2002—canllawiau arfarniad technoleg rhif 35;
- etanercept ac infliximab ar gyfer arthritis gwynegol, cyhoeddwyd fis Mawrth 2002—canllawiau arfarniad technoleg rhif 36; ac
- anakinra ar gyfer arthritis gwynegol, cyhoeddwyd fis Tachwedd 2003—canllawiau arfarniad technoleg rhif 72.

Mae'r sefydliad wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei ganllawiau ar atalyddion cox-II i drin osteoarthritis ac arthritis gwynegol—canllawiau arfarniad technoleg rhif 27—a disgwylir canllawiau newydd ym mis Mai 2005.

Mae NICE wrthi hefyd ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau ar y pynciau canlynol mewn perthynas ag arthritis:

- ethanercept ar gyfer arthritis psoriatig, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2005; ac
- ethanercept ac infliximab ar gyfer sbondylitis asiol, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2006.

### Nifer y Rhewmatolegwyr yng Nghymru

**Glyn Davies:** Faint o rewmatolegwyr sydd yng Nghymru a faint mae Cymdeithas Rhewmatoleg Prydain yn argymell sydd eu hangen? (WAQ34006)

**Jane Hutt:** Ym mis Medi 2002, yr oedd 35.4 o staff meddygol cyfwerth ag amser llawn ym maes rhewmatoleg yng Nghymru, gyda 15.0 ohonynt yn ymgynghorwyr. Y lefel a argymhellir gan Gymdeithas Rhewmatoleg Prydain yw un ymgynghorydd fesul 85,000 o boblogaeth. Ar 31 Medi 2002, yr oedd 0.43 ymgynghorydd fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 12 o swyddi cofrestryddion arbenigol ym maes rhewmatoleg yng Nghymru.

### Cynlluniau ar gyfer Gorsaf Ambiwlans Newydd yn Llandrindod

**Nick Bourne:** A oes unrhyw gynlluniau ar gyfer gorsaf ambiwlans newydd yn Llandrindod? (WAQ34015)

**Jane Hutt:** Yn ôl Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru mae gorsaf ambiwlans Llandrindod, sydd wedi'i lleoli ar safle'r ysbyty cymunedol, yn cael ei hystyried yn annigonol oherwydd ei maint a'i gosodiad. Nid yw Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys yn gallu darparu rhagor o le ar y safle, felly, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn adolygu'r opsiynau o ran dyfodol yr orsaf. Mae'r ymddiriedolaeth wedi comisiynu arolygon o'i holl ystâd a bydd y rhain wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2004. Yn dilyn hynny, bydd yr ymddiriedolaeth yn llunio cynllun gweithredu wedi'i gostio i ymdrin â'r gwelliannau sy'n ofynnol. Mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl bod mewn sefyllfa i ddarparu canllawiau ar y trefniadau ar gyfer yr orsaf yn y dyfodol yn yr haf.

### Gwasanaethau Anymatal

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y mesurau ar gyfer cyllido a chydgysylltu gwasanaethau anymatal, a'r mesurau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ohonynt? (WAQ34033)

**Jane Hutt:** Mae arian wedi cael ei nodi yn y gyllideb gogyfer â'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn er mwyn i Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio gwblhau dau brosiect yn ymwneud ag anymatal a rheoli ymatal. Mae swm o £25,000 wedi ei neilltuo o'r gyllideb hon ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05 i ddatblygu llwybr gofal integredig i Gymru gyfan ar reoli ymatal. Bydd y llwybr hwn yn nodi strwythurau er mwyn sicrhau'r arferion gorau o ran rheoli ymatal a chaiff ei ddatblygu gyda chymorth grŵp cyfeirio amlddisgyblaethol/amlasiantaethol. Mae £100,000 ychwanegol wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06 i gwblhau prosiect sy'n anelu at wella mynediad i doiledau cyhoeddus ar gyfer pobl hŷn, ac i wella ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth honno. Bydd y prosiectau hyn yn cael effaith ar gydlynu'r gwasanaethau anymatal ac ar ymwybyddiaeth pobl ohonynt.

Yn ogystal, mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac fel rhan ohono bydd safonau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau rheoli ymatal, yn cael eu datblygu a bydd cyhoeddusrwydd eang yn cael ei roi iddynt. Byddai unrhyw arian ychwanegol yn dod oddi wrth y byrddau iechyd lleol. Gall y byrddau nodi gwasanaethau anymatal o fewn y dyraniadau gofynion gwasanaeth yn eu hardaloedd unigol.

### Cau Cartrefi Gofal a Cholli Gwelyau

**Mark Isherwood:** Beth yw'r ffigurau ar gyfer cau cartrefi gofal a cholli gwlâu mewn cartrefi gofal drwy Gymru ac ar gyfer y 22 awdurdod lleol? (WAQ34037)

**Jane Hutt:** Mae newidiadau i'r diffiniad cyfreithiol o gartrefi gofal yn Neddf Safonau Gofal 2000, datblygiadau gwasanaeth megis datgofrestru o ganlyniad i ddatblygiadau tai â chymorth a newidiadau yn y ffordd y caiff cartrefi bach eu cyfrif yn golygu nad yw gwybodaeth o'r math hwn yn ddibynadwy. Pan gaiff cartref ei werthu, mae hefyd yn cau yng ngolwg y gyfraith, ond efallai y bydd yn parhau i ddarparu'r

un gwasanaeth o dan berchenogaeth newydd. Gan gadw'r cafeatau sylweddol hyn mewn cof, darperir y ffigurau canlynol er gwybodaeth ichi.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003, caeodd 104 o gartrefi gofal i oedolion. Yr oedd 784 o leoedd wedi'u cofrestru yn y cartrefi hyn. Nid yw'r ffigur hwn ar gael fesul ardal awdurdod lleol, ond mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn gallu ei ddarparu fel a ganlyn:

| **Rhanbarth** | **Ardaloedd awdurdodau lleol a gwmpasir** | **Cartrefi wedi cau rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003** | **Lleoedd yn y cartrefi hyn** |
|---|---|---|---|
| Y Gogledd-orllewin | Gwynedd, Conwy, Ynys Môn | 31 | 181 |
| Y Gogledd-ddwyrain | Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam | 18 | 218 |
| Y Canolbarth | Powys | 7 | 25 |
| Y De-ddwyrain | Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Caerffili, Tor-faen, Casnewydd | 5 | 47 |
| Caerdydd | Caerdydd | 12 | 109 |
| Bro Morgannwg a'r Cymoedd | Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful | 14 | 112 |
| Y De-orllewin | Abertawe, Castell-nedd/Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr | 4 | 16 |
| Y Gorllewin | Ceredigion, Sir Benfro a Chaerfyrddin | 13 | 76 |

## Gwahardd Staff Ymgynghorol

**Nick Bourne:** Beth yw cost gwahardd staff ymgynghorol yn y gwasanaeth iechyd i gyllideb y GIG eleni, ac ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ34046)

**Jane Hutt:** Nid chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

## Staff Ymgynghorol sydd wedi'u Gwahardd ar Hyn o Bryd

**Nick Bourne:** Faint o staff ymgynghorol yn y GIG sydd wedi'u gwahardd ar hyn o bryd, a faint o staff a waharddwyd ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ34047)

**Jane Hutt:** Dim ond manylion am feddygon sydd wedi cael eu gwahardd am chwe mis ar sail camymddwyn proffesiynol y mae'n ofynnol i'r ymddiriedolaethau eu cyflwyno. Nid yw'n ofynnol iddynt roi gwybod i'r Cynulliad os caiff aelod staff ei atal oherwydd camymddwyn personol. Ar hyn o bryd mae dau achos wedi cael eu riportio yng Nghymru.

## Camddefnyddio Sylweddau

**Brynle Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y gwelyau preswyl yng ngogledd Cymru er mwyn trin cleifion sy'n camddefnyddio sylweddau? (WAQ34062) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Y 22 partneriaeth diogelwch cymunedol ledled Cymru sy'n gyfrifol am roi strategaeth Cymru ar fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar waith ar lefel leol.

## Gweithredu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (Effaith ar y GIG)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch effaith rhoi ar waith y gyfarwyddeb oriau gwaith ar redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ34067)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch effaith rhoi'r gyfarwyddeb oriau gwaith ar waith ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? (WAQ34068)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch rhoi ar waith y gyfarwyddeb oriau gwaith yng Nghymru, ac a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau? (WAQ34069)

**Jane Hutt:** Mae Gweinidogion y Cynulliad wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'u cyd-Weinidogion yn San Steffan yn rheolaidd ynghylch effaith y gyfarwyddeb oriau gwaith ac yn arbennig effaith y ddau ddyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop—SiMAP a Jaeger—sy'n effeithio ar y diffiniad o oriau gwaith. Yr wyf wedi cael sylwadau oddi wrth nifer o Aelodau Cynulliad sydd wedi cyflwyno cwestiynau ac mae'r ymatebion i'r rhain i'w gweld yn y cofnod swyddogol.

## Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (Effaith ar Oriau Gwaith Meddygon)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ar drafodaethau ar lefel yr Undeb Ewropeaidd ar y gyfarwyddeb oriau gwaith ac effaith debygol hynny ar oriau gwaith meddygon, yn arbennig mewn ysbytai cymunedol yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ34070)

**Jane Hutt:** O ganlyniad i sylwadau'r Llywodraeth a sylwadau aelod wladwriaethau eraill i'r Comisiwn Ewropeaidd, mae'r comisiwn wedi dweud ei fod yn bwriadu dod â chynigion deddfwriaethol gerbron yn ymwneud â'r gyfarwyddeb oriau gwaith cyn yr haf. Bydd y cynigion hynny yn ymdrin â rhai o'r problemau o ran cydymffurfio, yn arbennig mewn ysbytai cymunedol. Yn y cyfamser, mae angen i'r GIG ystyried cyfraniadau gwahanol ysbytai, darparwyr sylfaenol a darparwyr gofal cymdeithasol o fewn y maes yn ei gyfanrwydd.

## Presgripsiynau am Ddim (Cyflwyno Deisebau Meddygon)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno deisebau oddi wrth bractisiau meddygon yn Lloegr, yng Nghymru, o ran presgripsiynau am ddim? (WAQ34071)

**Jane Hutt:** Nid oes deisebau wedi dod i law oddi wrth bractisiau meddygon yn Lloegr nac yng Nghymru mewn perthynas â phresgripsiynau am ddim.

## Codi Tâl am Barcio yn Ysbyty Gwynedd

**Lisa Francis:** Faint fydd Ysbyty Gwynedd yn ei godi am barcio ceir, pan fydd yn cyflwyno hynny ym mis Mai? (WAQ34095)

**Jane Hutt:** Mater lleol i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru ddelio ag ef yw pa un i godi tâl am barcio ai peidio. Ni wn faint fydd y gost.

## Cleifion Deintyddol y GIG

**Lisa Francis:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i atal deintyddion rhag cymryd grantiau mawr am gleifion y GIG ac yna mynd yn breifat? (WAQ34097)

**Jane Hutt:** Mae ymarferydd deintyddol yn cael grant sylfaenol o du menter ddeintyddol Cymru i sefydlu practis deintyddol newydd, neu i ehangu practis sy'n bodoli'n barod, mewn ardaloedd lle nodwyd bod angen am wasanaethau deintyddol nad yw'n cael ei ddiwallu. O dan delerau ac amodau'r cynllun, mae'n

ofynnol i'r ymarferydd gofrestru nifer benodedig o gleifion i gael triniaeth o dan y GIG a chynnal y ddarpariaeth am gyfnod penodol, sydd fel arfer yn bum mlynedd. Mae talu'r grant yn ddibynnol ar yr ymrwymiad i'r GIG a chaiff hyn ei fonitro gan y bwrdd iechyd lleol. Er mwyn i'r deintydd barhau i dderbyn y taliad grant, rhaid iddo ef neu iddi hi barhau a'i ymrwymiad i'r GIG. Os na chydymffurfir ag amodau'r grant, caiff y taliad ei hawlio'n ôl.

**Y Gyllideb ar gyfer Hyfforddi Nyrsys**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad ar pa un a yw GIG Cymru yn bwriadu cwtogi'r gyllideb ar gyfer hyfforddi nyrsys o Ebrill 2005? (WAQ34100)

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb ganolog ar gyfer addysg a hyfforddiant i staff anfeddygol yn 2004-05 wedi cynyddu 7.6 y cant o'i chymharu â chyllideb 2003-04. Er 1999, mae'r buddsoddiad canolog blynyddol mewn addysg a hyfforddiant i bob grŵp staff wedi cynyddu 73 y cant (mae'r ffigur hwn yn cynnwys y codiadau blynyddol gogyfer â chwyddiant). Mae cylch blynyddol cynllunio'r gweithlu ar gyfer 2004-05 wedi cael ei gomisiynu oddi wrth y GIG yng Nghymru. Bydd y galw am nyrsys a ddangosir drwy'r cynlluniau hyn yn dylanwadu ar y penderfyniadau o ran buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant yn 2005. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 6,000 yn fwy o nyrsys erbyn 2010. Caiff hyn ei gyflawni drwy barhau i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant, ac mae hynny'n cynnwys cynlluniau megis ehangu mynediad a chynlluniau dychwelyd i ymarfer.

**Fflworideiddio Dŵr**

**Val Lloyd:** Beth yw sefyllfa bresennol y Cynulliad Cenedlaethol o ran fflworideiddio dŵr? (WAQ34113)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ33680.

**Tendro Bloc ar gyfer Gwasanaethau Gofal yn y Cartref yng Nghaerdydd**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amserlen i gymeradwyo y tendro bloc ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd? (WAQ34123)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y gall darparwyr gwasanaethau presennol o dan gontractau spot barhau i ddarparu gwasanaethau pan y gweithredir y contractau bloc newydd a argymhellir ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd? (WAQ34124)

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth oedd y meini prawf a ystyriwyd wrth asesu ceisiadau am dendro bloc ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd, ac yn arbennig pa bwyslais a roddwyd ar safonau ac achredu? (WAQ34125)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer y contractau bloc newydd arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd, a pha rai o'r ceisiadau llwyddiannus hyn sydd wedi eu lleoli yng Nghymru? (WAQ34126)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd modd cynnal a gwella y dewis i gleientiaid o dan y cynllun contract bloc newydd arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd? (WAQ34127)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sawl darparwr gwasanaeth sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd o dan gontractau spot ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref yng Nghaerdydd a sawl un o'r rhain a fydd yn parhau i gael eu defnyddio wrth weithredu'r contractau bloc newydd? (WAQ34128)

**Jane Hutt:** Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gomisiynu gwasanaethau gofal ac, felly, materion gweithredol i'r awdurdod lleol yw'r trefniadau i ddarparu gwasanaethau gofal yn y cartref o dan gontract yng Nghaerdydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau statudol, o dan y teitl 'Hyrwyddo Partneriaeth ym Maes Gofal—Comisiynu ar Draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol',

sy'n diffinio egwyddorion pwysig i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau gofal. Yn arbennig, mae'r canllawiau yn ei gwneud yn glir fod Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylid lleihau'r ddibyniaeth ar gontractau spot tymor byr er mwyn helpu i feithrin mwy o hyder yn y farchnad.

**MRSA**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar MRSA? (WAQ34144)

**Jane Hutt**: Mae ystod o fesurau wedi cael eu sefydlu er mwyn cyfyngu ar heintiadau o fewn ysbytai. Yng Nghymru, yr ydym yn ymdrin â heintiadau sy'n gysylltiedig ag MRSA fel rhan o'r ymateb i unrhyw heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. MRSA yw'r haint sy'n ennyn y diddordeb mwyaf yn y cyfryngau. Mae gan bob ymddiriedolaeth dîm rheoli heintiau, gydag atebolrwydd a chyfrifoldeb am ddatblygu ac arolygu polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau ar lefel y bwrdd. Mae'r trefniadau yn cael eu hadolygu'n flynyddol drwy broses archwilio cronfa risg Cymru. Mae'r ymddiriedolaethau i gyd yn arolygu heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd er mwyn gwneud eu polisïau a'u gweithdrefnau yn fwy effeithiol.

Yn ychwanegol, mae cylchlythyr iechyd Cymru 2003/43 wedi darparu canllawiau ar fentrau newydd a gyflwynwyd yn raddol ledled Cymru yn ystod 2003. Mae'r rhain yn cynnwys trefn orfodol newydd i arolygu heintiadau ar safleoedd llawfeddygol, riportio achosion heintio o fewn ysbytai a thargedau i leihau nifer yr heintiadau. Yr oedd yn ofynnol i'r ymddiriedolaethau sefydlu'r system hon erbyn mis Medi 2003.

Bydd strategaeth sydd newydd ei chwblhau, a fydd yn gymorth i sicrhau gostyngiad yn nifer yr heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd o fewn ymddiriedolaethau ysbyty, yn cael ei chyhoeddi ddiwedd mis Mai. Bydd y strategaeth yn gosod gofynion newydd ar gyfer yr ymddiriedolaethau i reoli heintiadau ac mae'n rhoi pwyslais trwm ar yr angen i bob gweithiwr gofal iechyd ddeall a chyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau o fewn cyfundrefn llywodraethu clinigol a rheoli heintiau.

**Achosion o MRSA mewn Ysbytai yng Nghymru**

**Alun Cairns:** Faint o achosion o MRSA sydd wedi eu canfod ym mhob ysbyty yng Nghymru yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ34145)

**Jane Hutt**: Er 2001, mae cynllun riportio gorfodol ar gyfer bacteremia staffylococws awrëws wedi bod mewn grym yn ysbytai aciwt Cymru, yn cael ei gyd-drefnu gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Mae hwn yn ymdrin â staffylococws awrëws y mae methisilin yn effeithio arno yn ogystal â staffylococws awrëws sydd ag ymwrthedd i fethisilin (MSSA ac MRSA).

Mae'r adroddiad diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi, sydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, www.wales.nhs.uk/sites/page.cfm?OrgID=368&PID=3041, yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003.

**Ymchwil i MRSA**

**Alun Cairns:** Pa waith ymchwil mae'r Gweinidog yn ei gynnal i MRSA? (WAQ34146)

**Jane Hutt**: Er 2001, mae cynllun adrodd gorfodol ar gyfer bacteremia staffylococws awrëws wedi bod mewn grym yn ysbytai acíwt Cymru, a gydlynir gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Mae hwn yn ymdrin â staffylococws awrëws y mae methisilin yn effeithio arno yn ogystal â staffylococws awrëws sydd ag ymwrthedd i fethisilin (MSSA ac MRSA). Mae'r adroddiad diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi, sydd ar gael ar wefan y GICC, yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003.

Yr oedd cylchlythyr iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolaethau sefydlu system arolygu barhaus ar gyfer heintiadau ar safleoedd llawfeddygol yn

gysylltiedig â rhai llawdriniaethau orthopedig. Cyflwynodd y cylchlythyr ofyniad gorfodol hefyd i arolygu ac adrodd ar achosion o heintiadau cysylltiedig â gofal iechyd sy'n digwydd mewn ysbytai, gan gynnwys achosion o ddolur rhydd a chwydu. Gwirfoddol oedd adrodd o'r fath cyn hynny. Gwnâi'r cylchlythyr hi'n ofynnol hefyd i'r ymddiriedolaethau osod targedau lleol yn flynyddol gogyfer â gostyngiadau mesuradwy yn nifer yr achosion o heintio, gan ddefnyddio methodolegau arolygu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol megis y data bacteremia a oedd eisoes yn cael ei gasglu, ac i hysbysu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol o'r targedau hyn.

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, yr wyf yn siŵr, mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i wybodaeth gymaradwy ystyrlon fod ar gael am y newidiadau yng nghyfraddau'r heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ers i'r cylchlythyr gael ei gyhoeddi. Byddai angen cyfnod digonol o amser i weld a yw newid yn y cyfraddau yn gyfystyr â thuedd sy'n arwyddocaol yn ystadegol.

## Atal MRSA Rhag Ymledu

**Alun Cairns:** Pa bolisïau penodol mae'r Gweinidog wedi eu cyflwyno i atal MRSA rhag ymledu? (WAQ34147)

**Jane Hutt**: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn ddifrifol iawn. Mae is-grŵp heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd Cymru wedi cwblhau ei strategaeth i helpu i sicrhau gostyngiad yn nifer yr heintiadau cysylltiedig â gofal iechyd a geir o fewn ymddiriedolaethau ysbyty. Prif ffocws yr argymhellion yw datblygu seilwaith rheoli heintiau sy'n rhoi pwyslais trwm ar yr angen i bob gweithiwr gofal iechyd ddeall a chyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau o fewn cyfundrefn llywodraethu clinigol a rheoli heintiau. Cwblhawyd yr ymgynghori ar y strategaeth ddrafft ar 15 Ionawr 2003. Caiff y ddogfen ei chyhoeddi ddiwedd mis Mai 2004.

Mae'r cynllun i ffrwyno a rheoli heintiadau cysylltiedig â gofal iechyd mewn ysbytai yn amlinellu pedwar prif faes:

- trefniadaeth a seilwaith rheoli heintiau,
- y gofynion hyfforddi a chyflenwi hyfforddiant,
- mabwysiadu systemau arolygu a'u rhoi ar waith, ac
- ymyriadau sydd yn amlwg yn gostwng y nifer o heintiadau.

Mae'r strategaeth wedi'i chysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y Cynulliad i ddatblygu safonau ansawdd i Gymru gyfan, law yn llaw â phroses rheoli perfformiad ac â rhaglenni'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, a law yn llaw hefyd ag asesiadau annibynnol gan y cynghorau iechyd cymuned. Bydd hynny, ynghyd â'r systemau arolygu a gynigir yn y strategaeth, yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i fonitro newid a gwella.

## Cost MRSA i'r GIG yng Nghymru

**Alun Cairns:** Beth yw cost MRSA i'r GIG yng Nghymru? (WAQ34148)

**Jane Hutt:** Nid yw'n bosibl bwrw cyfrif manwl o'r gost gan nad yw MRSA ond un o nifer o heintiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Yr ydym ni, felly, wedi ymdrin â heintiau drwy bwysleisio pob agwedd o heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar un organeb. Mae costau heintiau a geir yn yr ysbyty, gan gynnwys gorfod aros yn hwy yn yr ysbyty, yn anodd i'w mesur, ond cyfrifwyd eu bod yn £3,154 y claf (Plowman R, Craves N, Griffin M, Roberts J, Swan A, Cookson B, Taylor L, 'The socio-economic burden of hospital acquired infection'—Llundain: Gwasanaeth y Labordy Iechyd Cyhoeddus, 2000). Fodd bynnag, mae hefyd yn ansicr faint o'r heintiadau hyn y mae modd eu hatal yng nghyd-destun yr arferion meddygol cyfredol a'r dechnoleg sydd ar gael a faint o'r rhain sy'n MRSA.

## Peryglon Gordewdra

**Val Lloyd:** Beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra? (WAQ34171)

**Jane Hutt:** Er mwyn mynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru, mae cael mwy o bobl i fwyta deiet iach ac annog gweithgarwch corfforol yn uchel ar agenda'r Cynulliad. Drwy 'Bwyd a Lles', y strategaeth genedlaethol ar faeth i Gymru, yr ydym yn rhoi nifer o raglenni ar waith er mwyn gwella deiet pobl Cymru. Cafodd y cynllun gweithredu hwn ei ddatblygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Atal a rheoli gorbwysedd a gordewdra yw un o'i naw argymhelliad. Yn ogystal, mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ffyrdd iach a gweithgar o fyw a 'Dringo'n Uwch', y strategaeth ymgynghori ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i bawb yng Nghymru fod yn weithgar yn gorfforol.

Ar hyn o bryd yr ydym yn gweithio gyda BBC Cymru ar ymgyrch gweithredu cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r risg sydd ynghlwm wrth orbwysedd a gordewdra. Dechreuodd ddiwedd mis Mawrth gyda chyfres o raglenni arloesol. Mae cyfres o sioeau teithiol yn cael eu cynnal ar draws Cymru yn ystod dwy wythnos gyntaf mis Ebrill. Y nod yw annog y teulu cyfan i fwyta'n iachach a'u cael i wneud mwy o weithgarwch corfforol.

Mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn cefnogi prosiect o'r enw Blaenau Gwent—Mynd i'r Afael â Gordewdra. Mae'r prosiect yn cynnig rhaglen 10 wythnos i annog cleientiaid i fwrw iddi i wneud ymarfer corff yn rheolaidd ac i gadw at y drefn honno. Yn gefn i'r dosbarthiadau wythnosol ceir arddangosiadau coginio a chyngor ar roi'r gorau i ysmygu lle bo hynny'n briodol. Mae dros 230 o bobl wedi elwa o'r rhaglen hon erbyn hyn. Mae'r prosiect hefyd wedi golygu bod modd sefydlu clinig gordewdra arbenigol yn ysbyty Glynebwy a, hyd yma, mae 32 o gleifion wedi dod i'r clinig. Ar gyfartaledd, mae'r wyth person a fu'n mynychu'r grŵp cymorth dilynol yn rheolaidd wedi colli 8 kg. Rhyngddynt, maent wedi colli 64 kg—sy'n cyfateb i berson arall.

Yn gynharach eleni, darperais dros £500,000 drwy'r cynllun grant hybu iechyd—bwyd a ffitrwydd—er mwyn rhoi cymorth ariannol i brosiectau cymunedol sy'n annog ffyrdd mwy egnïol o fyw a/neu ffyrdd iachach o fwyta. Ymysg y prosiectau a ariannwyd mae:

- grant i dalu am dreialu rhaglen o weithgarwch corfforol, addysg ynghylch deiet ac addasu ymddygiad ar gyfer y teulu cyfan er mwyn rheoli plant sydd dros bwysau a phlant gordew yng Nghaerffili, a
- darparu rhaglen addysgol, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer gyda goruchwyliaeth a chyngor ar fwyta'n iach, i bobl ifanc 11 i 16 oed yn Nhrefyclo y nodwyd eu bod dros bwysau.

## Mynediad i Bobl Anabl (Pobl Fyddar a Phobl Trwm eu Clyw)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod pob ysbyty yng Nghymru yn cynnal ac yn gweithredu yn sgîl archwiliadau sy'n edrych ar anghenion pobl anabl o ran mynediad, gan gynnwys anghenion pobl fyddar a phobl sy'n drwm eu clyw? (WAQ34021)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n bendant i sicrhau bod gwahanol anghenion pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio a chyflenwi gofal iechyd.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn cydnabod yn benodol anghenion neilltuol pobl sydd â nam ar y synhwyrau ac, yng Nghymru, mae'r byrddau iechyd lleol yn mynd ati i gefnogi darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl fyddar neu bobl drwm eu clyw drwy drefniadau lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau cyfieithu.

Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd yn lleol a thrwy weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys ymddiriedolaethau'r GIG, yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, gallant ddatblygu gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar anghenion a nodwyd yn lleol. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cynnal adolygiadau ystadau strategol gyda phob Ymddiriedolaeth GIG sy'n cynnwys

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 fel eitem sefydlog ar yr agenda, ac mae'r ymddiriedolaethau yn rhoi adroddiad ar yr arolygon y gofynnwyd iddynt eu cynnal o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ac ar y gwaith blaenoriaethu a wnaed ganddynt yn dilyn hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Gwirfoddoli a'r Sector Gwirfoddol (Cyngor Sir y Fflint)

**Sandy Mewies:** Faint o gyllid a gaiff Cyngor Sir y Fflint oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal a hybu gwirfoddoli a'r sector gwirfoddol? (WAQ34038)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Nid yw setliad llywodraeth leol wedi cael ei glustnodi.

### Addysg Cyfrwng Cymraeg

**Owen John Thomas:** Yn dilyn yr ateb i WAQ33825, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn defnyddio'r egwyddor cyfle cyfartal wrth wneud darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg? (WAQ34049) [W] ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid wyf wedi cynnal trafodaethau penodol ag awdurdodau addysg lleol ynghylch cyfle cyfartal mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Yn fy nghyfarfod diwethaf ag aelodau arweiniol yr awdurdodau lleol a'r cyfarwyddwyr addysg ym mis Medi 2003, bu imi eu hatgoffa ynghylch yr ymrwymiadau yn 'Iaith Pawb' a phwysleisiais yr angen i AALlau gynllunio lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unol â'r galw disgwyliedig realistig. Pwysleisiais bwysigrwydd nodi'r galw sydd wedi'i asesu yn eu cynlluniau trefniadaeth ysgolion ac atgoffais yr awdurdodau y dylai fod dolen gyswllt rhwng y cynlluniau hynny â'u cynlluniau addysg Gymraeg. Bydd canllawiau newydd ynghylch yr agwedd hon ar gynlluniau trefniadaeth ysgolion yn cael eu dosbarthu at ddiben ymgynghori yn fuan, yn unol â'r ymrwymiad yn 'Iaith Pawb'.

### Dyfodol Swyddfeydd Post Gwledig a Threfol

**Nick Bourne:** Pa asesiad a gafwyd yng Nghymru o effaith trosglwyddo credyd yn awtomataidd ar ddyfodol swyddfeydd post gwledig a threfol yng Nghymru? (WAQ34051)

**Edwina Hart:** Nid yw'r polisi yn ymwneud â swyddfeydd post yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mater i'r Post Brenhinol yw hwn a byddaf yn ei godi yn fy nghyfarfod gyda Mr Gareth Davies, cyfarwyddwr materion Cymreig Grŵp y Post Brenhinol ccc, ddiwedd y mis.

### Diogelu Rhwydwaith y Swyddfeydd Post Gwledig a Threfol

**Nick Bourne:** Faint mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei wario i geisio diogelu rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig a threfol yng Nghymru, a faint y mae'n bwriadu'i wario ym mhob un o'r blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn? (WAQ34052)

**Edwina Hart:** Nid yw'r polisi yn ymwneud â swyddfeydd post yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond yr wyf yn benderfynol o wneud popeth a allai i gadw rhwydwaith hyfyw a chynaliadwy o swyddfeydd ledled Cymru. Gyda hynny mewn golwg, yr wyf, hyd yma, wedi dyrannu dros £1 miliwn i 28 o swyddfeydd post. Yr wyf wedi cyhoeddi fy mwriad i fwrw ymlaen â chylchoedd 3 a 4 ac i gynyddu'r buddsoddiad hwn, cyhyd ag y gellir cael gwarantau addas gan y Swyddfa Bost Cyf ynglŷn â dyfodol y swyddfeydd hynny sydd wedi elwa, a'r rheini yr wyf yn gobeithio y byddant yn elwa, drwy gael cymorth o'r gronfa i ddatblygu swyddfeydd post.

**Pobl sydd wedi'u Cofrestru'n Ddibynnol ar Heroin**

**Nick Bourne:** Faint o bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddibynnol ar heroin yng Nghymru eleni, a faint a fu ym mhob blwyddyn ers sefydlu'r Cynulliad? (WAQ34053)

**Edwina Hart:** Nid oes ffigurau ar gael am y nifer o bobl sy'n ddibynnol ar heroin.

**Y Rhaglen Ailddyfeisio Trefol**

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drafodaethau a gafodd â'r Post Brenhinol ynghylch y rhaglen ailddyfeisio trefol? (WAQ34060)

**Edwina Hart:** Yn ychwanegol at y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda Grŵp y Post Brenhinol ccc yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yr wyf i fod i gwrdd â Mr Gareth Davies, cyfarwyddwr materion Cymreig Grŵp y Post Brenhinol ccc, ddiwedd y mis hwn.

**Y Rhaglen Addysg Ysgolion Cymru Gyfan ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau**

**Leighton Andrews:** Faint o oriau fydd swyddogion yr heddlu'n eu neilltuo i bob ysgol ar gyfer rhaglen addysg ysgolion Cymru gyfan ar gamddefnyddio cyffuriau a sylweddau? (WAQ34080)

**Edwina Hart:** Nid yw'n bosibl ateb y cwestiwn hwn fesul ysgol gan fod y rhaglen yn golygu gwahanol lefelau o fewnbwn yng nghyfnodau allweddol 1, 2, 3 a 4, er enghraifft, ceir lefel uwch o fewnbwn yng nghyfnod allweddol 2, sef ysgol gynradd, nag yng nghyfnod allweddol 1, sef ysgol babanod. Fodd bynnag, i roi rhyw fath o syniad ichi, disgwylir i swyddogion yr heddlu dreulio 80 y cant o'u hamser yn rhoi'r rhaglen ar waith.

**Hyfforddiant a Roddir i Swyddogion yr Heddlu**

**Leighton Andrews:** Faint o hyfforddiant a roddir i swyddogion yr heddlu sy'n cymryd rhan yn rhaglen addysg ysgolion Cymru gyfan ar gamddefnyddio cyffuriau a sylweddau? (WAQ34081)

**Edwina Hart:** Bydd pob swyddog sy'n rhoi'r rhaglen graidd i ysgolion ar waith yn cael hyfforddiant helaeth. Fodd bynnag, bydd hyn yn amrywio yn y 12 mis cyntaf rhwng y pedwar llu yng Nghymru. Mae heddlu Gwent wedi ymgymryd â hyfforddiant helaeth gyda'i swyddogion dros y ddwy flynedd diwethaf, a'r hyfforddiant hwnnw wedi'i seilio ar sgiliau cyflwyno, hyfforddiant unigol, hyfforddiant mewn perthynas â gwersi unigol, hyfforddiant arbenigol yn ymwneud ag amddiffyn plant, cam-drin yn y cartref ac ati. Bellach, gan fod y rhaglen wedi cael ei mabwysiadu ar sail Cymru gyfan, mae'r pedwar llu yn cyfuno i archwilio'r posibilrwydd o achrediad proffesiynol drwy Brifysgol Cymru.

**Rhaglen Addysg Ymwybyddiaeth o Gyffuriau Gwent**

**Leighton Andrews:** Faint o ysgolion sydd wedi cymryd y rhaglen addysg ymwybyddiaeth o gyffuriau Gwent? (WAQ34082)

**Edwina Hart:** Dim ond am heddlu Gwent y mae gwybodaeth gywir ar gael ar hyn o bryd, gan fod y tri llu arall mewn gwahanol gyfnodau yn eu datblygiad. Fodd bynnag, mae'r tri llu arall yn bwriadu bod yn gwbl weithredol o fis Medi 2004, sef dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. Yn ardal heddlu Gwent, mae 100 y cant o'r ysgolion yn derbyn y rhaglen, sy'n ymdrin â materion ehangach.

**Cynllun Addysg Ymwybyddiaeth o Gyffuriau Gwent (Estyn)**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw Estyn wedi gwerthuso cynllun addysg ymwybyddiaeth o gyffuriau Gwent? (WAQ34083)

**Edwina Hart:** Nid yw Estyn wedi gwerthuso rhaglen ysgolion Cymru gyfan. Fel amod o'r cyllid ar gyfer y rhaglen, rhaid cyflogi neu benodi gwerthuswyr allanol i werthuso hynt o dan y rhaglen. Mae trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd i hybu'r broses hon.

### Y Broblem Gyffuriau ar Ystâd Bôn-y-Maen, Abertawe

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem gyffuriau ar ystâd Bôn-y-Maen, Abertawe? (WAQ34094)

**Edwina Hart:** Ar lefel leol, mae'r cyfrifoldeb am roi strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gamddefnyddio sylweddau ar waith yn gorffwys gyda'r 22 partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru. Y nhw sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion eu cymunedau eu hunain. Mae partneriaeth diogelwch cymunedol Abertawe, yn yr un modd â phob un o'r partneriaethau eraill, wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer 2004-05, sy'n ymdrin â'r anghenion a'r blaenoriaethau yn ei hardal hi.

### Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai dim ond 37 y cant o orchmynion triniaeth a phrofi am gyffuriau a oedd yn cael eu cwblhau? (WAQ34107)

**Edwina Hart:** Nid yw'r cyfrifoldeb am orchmynion triniaeth a phrofi am gyffuriau wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol amdanynt o hyd.

### Effaith y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith ar y Gwasanaethau Tân Wrth Gefn

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw gyflwyniadau i'w chyd-Weinidogion yn San Steffan neu i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch effaith y gyfarwyddeb oriau gwaith ar y gwasanaethau tân wrth gefn? (WAQ34108)

**Edwina Hart:** Nac ydwyf.